

# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

Rhifyn 490 • Gorffennaf 2018 • 50c

## Bwrlwm Bro

Cynhaliwyd diwrnod Bwrlwm Bro ar gaeau Ysgol Dyffryn Ogwen ar Orffennaf 7 mewn haul tanbaidd ac fe gafwyd hwyl fawr wrth i blant a phobl ifanc y fro gystadlu mewn gwahanol chwaraeon a rasmus. Roedd timau o wahanol gymunedau o fewn y dyffryn wedi dod ynghyd am ddiwrnod o hwyl a mwynhad.

Yn y llun gwelwn y tîm buddugol ar gaeau Ysgol Dyffryn Ogwen Mwy o luniau o'r Bwrlwm Bro ar dudalennau eraill.



## Noson o Roc a Chanu yn codi arian at elusen a chodi proffil Dyffryn Ogwen

### CODI £25,000 AT GANSER

Yn y cyngerdd roc mawr a gynhaliwyd o flaen Caffi Blondin ger y Wifren Wib yn Chwarel y Penrhyn llwyddodd Mike Peters o'r grŵp roc 'Alarm' a'i wraig Jules i godi'r swm enfawr o £25,000 tuag at ganolafn cancr Gogledd Cymru. Roedden nhw'n cael eu cynorthwyo gan amryw o artistiaid eraill, gan gynnwys Slade, y grŵp pop byd enwog o'r 70au a doniau lleol fel Côr y Penrhyn a chorau Ysgolion Dyffryn Ogwen. Mae'n bur debyg y bydd y llwyddiant hwn yn esgor ar fwy o gyngherddau roc tebyg yn y dyfodol.



Meic a Jules Peters ar y noson



*Caleb Rhys ac Owain Evans o'r Gerlan yn mwynhau noson 'Cariad, Gobaith a Nerth' ar safle'r Wifren Wib*

(Mwy o'r noson 'Cariad, Gobaith, Nerth' ar dudalennau eraill)

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**  
☎ 600965  
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn**  
☎ 600297  
ieuanwyn01@gmail.com
- Lowri Roberts**  
☎ 600490  
l.roberts11@btinternet.com
- Fiona Cadwaladr Owen**  
☎ 601592  
fionaowen28@gmail.com
- Neville Hughes**  
☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**  
☎ 602440  
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard**  
☎ 07402 373444  
trystanrp1@gmail.com
- Walter a Menai Williams**  
☎ 601167  
waltermenai@yahoo.co.uk
- Orina Pritchard**  
☎ 01248 602119  
orinapritchard@gmail.com
- Rhodri Llŷr Evans**  
☎ 07713 865452  
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

**Cadeirydd:**  
Dewi A Morgan, Park Villa,  
Lôn Newydd Coetmor,  
Bethesda, Gwynedd  
LL57 3DT ☎ 602440  
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion:**  
Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA  
☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**  
Gareth Llwyd, Talgarnedd,  
3 Sgwâr Buddug, Bethesda  
LL57 3AH  
☎ 601415  
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**  
Godfrey Northam, 4 Llwyn  
Bedw, Rachub, Llanllechid  
LL57 3EZ ☎ 600872  
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**  
Owen G Jones, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd  
LL57 3NN ☎ 600184  
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan  
Derfel Roberts.

Y golygydd ym mis Medi fydd  
Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd  
Carneddi,  
Bethesda, LL57 3SG.  
01248 600297  
Ebost: ieuanwyn01@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn  
**dydd Mercher, 5 Medi**  
os gwelwch yn dda.  
Plygu **nos Iau, 20 Medi**, yng  
Nghanolfan Cefnfaes  
am 6.45.

**DALIER SYLW:** nid oes  
gwarant y bydd unrhyw  
ddeunydd fydd yn  
cyrraedd ar ôl y dyddiad  
cau yn cael ei gynnwys.

Cyhoeddir gan  
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais\_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths  
elgangriffiths@btinternet.com  
☎ 01970 627916  
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel  
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno  
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Dyddiadur y Dyffryn

Gorffennaf

- 21 Bore Coffi Clwb Peldroed Mynydd  
Llandygai. Caffi Coed y Brenin.  
10.00 – 12.00.
- 21 Ffair Haf. Canolfan Gymunedol  
Tregarth. 11.00 – 3.00.

Awst

- 11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.  
9.30 – 1.00.
- 18 Cystadleuaeth Garlleg Moriarty-  
Thomas. Douglas Arms. 3.00 y  
pnawn ymlaen.
- 25 Garddwest Eglwys St. Tegai. Parc y  
Penrhyn yn y prynhawn.

Medi

- 06 Sefydliad y Merched Carneddi.  
Arddangosfa – Awen Rees.  
Cefnfaes am 7.00.
- 08 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y  
Brenin. 10.00 – 12.00.
- 08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.  
9.30 – 1.00.
- 15 Bore Coffi Eglwys Crist  
Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 20 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am  
6.45yh.
- 22 Bore Coffi Eglwys St. Tegai.  
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.



Ariennir yn Rhannol gan  
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

Mae Llais Ogwan ar werth  
yn y siopau isod:

**Dyffryn Ogwen**  
Londis, Bethesda  
Siop Ogwen, Bethesda  
Cig Ogwen, Bethesda  
Tesco Express, Bethesda  
Select Conv, Bethesda  
Siop y Post, Rachub

**Bangor**  
Siop Forest  
Siop Menai  
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon**  
Palas Print

**Porthaethwy**  
Awen Menai

**Rhiwlas**  
Garej Beran

Archebu  
trwy'r  
post

Gwledydd Prydain – £20  
Ewrop – £30  
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NN  
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn  
yn swyddfa'r deillion, Bangor  
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael  
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn  
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch  
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415  
Neville Hughes ☎ 600853



# Rhoddion i'r Llais

- £20

Er cof am Dad, W.O. Williams, 100 Ffordd Carneddi gynt, ar ei benblwydd yn gant oed ar Awst 29, oddi wrth Jean a Meryl.
- £10

Er cof am fy rhieni, Bob a Ceri Davies, Carneddi gynt, oddi wrth Beti.
- £25

Rhodd er cof am Llinos Môn Williams oddi wrth y teulu.
- £50

Er cof annwyl am wraig a mam arbennig, Maggie Jones, Tŷ Coetmor, Brynbella, ac i gofio am ei phenblwydd yn 93 oed, ar 14eg o Orffennaf, oddi wrth Tom, John, Ann, Joan, Meurig, Glenys, a Janet.
- £20

Er cof am Dylan Rowlands, oddi wrth Dic, Glenys a'r teulu, Erw Las.
- £10

Hilda Campbell, Erw Las, Bethesda.
- £10

Gwyneth Owen, Coedlys, Tregarth.
- £4.50

Mair Wyn, 41 Abercaseg, Bethesda

# Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

## Gwobrau Gorffennaf

- £30.00

(110)

Dafydd Owen, 6 Lôn Groes, Rachub.
- £20.00

(131)

E. Mary Jones, Pencraig, Erw las, Bethesda.
- £10.00

(24)

Ann Thomas, 11 Maes y Garnedd, Bethesda.
- £5.00

(45)

Lynne Hudson, Engedi, Bryngwran.

Os am ymuno, cysylltwch â  
Neville Hughes – 600853

# Eglwys St. Cedol, Pentir

## Clwb 100 Mis Mehefin 2018

- 1af.

Rhif 37

Ian Russell  
Llandygái
- 2ail.

Rhif 3

Ella Roberts-Jones  
Rhiwlas
- 3ydd

Rhif 33

Nia Roberts, Rhiwlas

## Caws a Gwin

Cynhaliwyd Noson o Gaws a Gwin yn Y Ganolfan, Glasinfryn ar Nos Sadwrn 30 Mehefin. Roedd yn noson hwyliog a llwyddiannus a llawer o ddiolch am y gefnogaeth.

## Te Mefus

Prynhawn Sadwrn, 28 Gorffennaf am 3 y prynhawn bydd Te Mefus yn cael ei gynnal yn Gweunydd, Hafod Lon, Rhiwlas er budd Eglwys St.Cedol. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni.

## Noson Gerddorol

Bydd noson o Gerddoriaeth yn cael ei chynnal yn Eglwys St.Cedol, Pentir Nos Wener, 24 Awst am 7yh. Ymhlith yr eitemau i'n diddanu bydd artistiaid lleol, gyda Sharon yn chwarae'r Organ a Sioned yn chwarae darnau i'r clarinét. Hefyd, bydd grŵp lleol yn chwarae a chanu'r Iwcalili (Ukelele), a bydd eitemau amrywiol eraill i'n diddanu yn ystod y noson. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ar ddiwedd y noson ac estynnir croeso cynnes i bawb.

## Sêl Blanhigion

Bydd Sêl Blanhigion yn cael ei chynnal yn Eglwys St.Cedol, Ddydd Sadwrn, Medi 1 i ddechrau am 11yb. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a chroeso cynnes i bawb.

## Gwellhad

Anfonwn ein cofion gorau at Gwyn a Gaynor, y ddau yn gwella gartref ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella ill dau.

## Cofion

Anfonwn ein cofion cynnes at Eira, Mai, Mary, Bill a Vick. Nid ydynt yn dda ei hiechyd ar hyn o bryd ac anfonwn ein dymuniadau gorau i chwi.

## Gwasanaethau'r Sul

- Mae'r gwasanaethu am 9.45y.b

22.7.18

Boreol Weddi
- 29.7.18

Gwasanaeth ar y cyd 9.30yb

St.Tegai, Llandygai neu 11yb Eglwys Crist Glanogwen
- 5.8.18

Cymun Pawb
- 12.8.18

Boreol Weddi
- 19.8.18

Cymun Bendigaid
- 26.8.18

Boreol Weddi

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau

## DAFYDD CADWALADR

### Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

## Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Peiriant codi arian di-dâl

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos



# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045  
Caernarfon 01286 676070  
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol  
Stoc helaeth ac amrywiol  
Staff cyfeillgar a phroffesiynol  
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768  
Llanrwst 01492 640794  
Siop yn 01492 641798  
Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

Ysgol Bodfeurig

Plas Menai

A hithau’n cyrraedd diwedd tymor yr Haf daeth yr amser i fynd ar ein triapiau diwedd tymor. Eleni cafodd dosbarth Tryfan gyfle gwych i fynd i Blas Menai. Roedd pawb yn llawn cyffro wrth gyrraedd a chael gwisgo dillad arbennig i fynd allan ar y Fenai. Cafwyd profiadau bythgofiadwy o hwylfyrddio, archwilio’r traeth am y bywyd gwyllt diddorol sydd yno, yna mynd mewn caiac cyn cael adeiladu catapwlt yn y prynhawn. Heb os, hoff ran pawb oedd neidio i mewn i’r dŵr ar ôl gorffen! Diolch i staff Plas Menai am brofiadau gwych i bawb.



Rhai o blant Ysgol Bodfeurig ym Mhlas Menai

Traws Gwlad

Llongyfarchiadau mawr i griw bach o’r ysgol fu’n cystadlu yn rasys traws gwlad yr Urdd ar Stad y Faenol. Gwnaeth pawb eu gorau glas mewn rasys cystadleuol iawn. Rydym yn falch iawn o’ch ymdrech.

Mabolgampau

Ar un o ddyddiau poethaf y flwyddyn braf oedd gweld caeau’r ysgol yn orlawn gyda theuluoedd a ffrindiau ar gyfer ein mabolgampau. Cafodd pawb gymryd rhan mewn llawer o gystadlaethau gwahanol a chafwyd llawer o hwyl yn gwneud

hynny! Da iawn i bob un gymrodd ran a diolch i’r rhai ddaeth i gefnogi, roedd yn ddiwrnod llwyddiannus a chodwyd dros £50 tuag at adnoddau ar gyfer yr ysgol. Diolch!

Twrnamaint Pêl Droed

Fe fydd plant yr ysgol bob tro’n mwynhau cyfle i ddod at ei gilydd gyda phlant eraill y dalgylch ar gyfer gweithgareddau. Braf felly oedd cael cymryd rhan mewn gŵyl bêl droed a drefnwyd gan Ysgol Glancegin. Cafodd tîm blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod gwerth chweil yn cystadlu - diolch Ysgol Glancegin am drefnu, edrychwn ymlaen at wneud mwy gyda’r dalgylch eto’n fuan!

Glan Llyn

Gweithgaredd arall gynhaliwyd fel dalgylch oedd y trip blynyddol i Glan Llyn. Cafodd criw mawr o blant blwyddyn 5 a 6 benwythnos bendigedig yn cymryd rhan mewn llu o weithgareddau megis dringo a bowlïo. Heb os uchafbwynt y penwythnos yn y tywydd poeth oedd canwïo cyn neidio i mewn i’r dŵr i oeri. Cafodd pawb sbort yn gweld Miss Davies a Miss Emily yn ymuno gyda’r hwyl yn neidio i’r dŵr. Diolch i griw’r Urdd ac i staff yr ysgol am wneud y penwythnos yn un bythgofiadwy i’r criw!



Plant Ysgol Bodfeurig aeth i Lanllyn

Tanau yn Nyffryn Ogwen

Ddechrau’r mis bu tân yn y coed uwchben Braichmelyn a thanau ym Mhantdreiniog. Mae’r Gwasanaeth Tân yn credu mai tanau a gychwynwyd yn fwiadol ydy rhai o’r rhain ac maen nhw wedi apelio at bobl a phlant i beidio cychwyn tanau allan mewn tiroedd gwyllt yn yr ardal. Mae cynnod o sychder mawr fel hwn eleni yn golygu y gall tân ledaenu dros ardal fawr mewn amser byr ac mae hynny’n golygu bod cartrefi a phobl, heb sôn am fyd natur, mewn perygl enbyd oddi wrth y fflamau a’r mwg.

Cost Fawr y Tanau

Dydy rhai pobl a phlant ddim yn

sylweddoli pa mor ddinistriol ydy tân, na chwaith faint ydy cost y difrod na’r gost o geisio’i ddiffodd. Mae’n rhaid addysgu ein plant a’n pobl ifanc yn bennaf, mai arnon ni ac arnyn nhw fel trethdalwyr y mae’r gost yn disgyn, a bod ein trethi ni, bob un ohonon ni, yn debyg o godi’n aruthrol ar ôl cynnod fel hwn. Bu’r mwg a grëwyd gan y tân ym Mraichmelyn yn mudlosgi am y rhan fwyaf o Ddydd Mawrth, Gorff 3 a gorfodwyd pobl yr ardal i gau eu ffenestri i gadw’r mwg allan er gwaethaf y gwres llethol. Bu sôn ar y cyfryngau hefyd bod rhai pobl wedi eu cynghori i adael eu cartrefi ond mae peth amheuaeth am wirionedd y sibrydion hynny.

Peryglon difrifol

Efallai mai’r canlyniad mwya difrifol i’r holl danau hyn ydy’r ffaith y gallai’r Gwasanaeth Tân fod yn ymladd y fflamau ar dir agored pan ddaw galwad am eu help mewn tân lle mae bywydau pobl mewn perygl. Pe byddai tân yn cychwyn mewn tŷ yn un o strydoedd Bethesda fe allai’r Gwasanaeth Tân fod yn hwyr yn cyrraedd oherwydd bod eu timau ynghanol brwydr i ddiffodd y fflamau ar fynydd neu ynghanol coedydd. Yn ôl adroddiadau yn y wasg mae’r heddlu’n chwilio am ddau fachgen ifanc yn eu harddegau cynnar mewn cysylltiad â’r tanau a gychwynwyd ym Mhantdreiniog.



## Y Gerlan

Caren Brown

Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda  
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166  
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn,

2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ  
☎ 01248 208254 / 07880 702640  
heleddselwyn@hotmail.com

### Babis bach newydd Gerlan

Llongyfarchiadau i Elinor a Siôn Glyn, 9 Gwernydd, ar enedigaeth eu merch fach ar Orffennaf 3, sef chwaer fach i Mali Non ac wyres fach newydd i Elaine a Brian Churchill. Abergele a Gwenda a Glyn Davies, Llanfairpwll.

Llongyfarchiadau mawr i Carwyn Jones ac Annie Davis Stryd y Ffynnon ar enedigaeth eu plentyn cyntaf - Gethin James Jones. Da ni gyd yn edrych ymlaen at weld yr un bach newydd.

### Salwch

Gyrrwn ein cofion cynhesaf at Myfanwy Jones, Gwernydd (Anti Myf) sydd yn Ysbyty Gwynedd. Derbyniodd nifer o negeseuon Facebook trwy law'r teulu, ac fe 'roedd wrth ei bodd yn clywed pob un ohonynt. Gobeithio y caiff ddod adre'n fuan - mae pawb yn gweld ei cholli yn Gwernydd.

Bu Peter Brown, Gwernydd, hefyd yn yr ysbyty am wythnos ganol mis Mehefin ar ôl dioddef o pneumonia. Mae wedi gwella'n rhyfeddol erbyn hyn a hoffai ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u help. Mynnodd fynd i weld y Rolling Stones yng Nghaerdydd ychydig ddyddiau ar ôl dod adref o'r ysbyty a mwynhau pob eiliad ohono!

### Ymddeoliad

Bu i ni yrru cyfarchion pen-blwydd arbennig i Huw Waen ym mis Mai. Mae o wedi cadarnhau erbyn hyn ei fod wedi ymddeol yn swyddogol! Dymunwn y gorau iti Huw gan obeithio y cei di a Gwenno ddigon o amser rŵan i fwynhau eich hunain wrth deithio yn y camper van newydd!

### Diolch

Hoffai Ann a Dafydd, Stryd y Ffynnon, a Mefys a'r teulu, ddiolch o waelod calon am yr holl arwyddion o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ddiweddar yn dilyn eu profedigaeth fawr o golli mam, nain, a hen nain mor arbennig, y ddiweddar Maggie Jones, Tŷ Coetmor, Brynbella. Diolch i'r holl gymdogion a chyfeillion am y geiriau caredig, y galwadau ffôn niferus, y cardiau lu a dderbyniwyd, a'r rhoddion hael a roddwyd er cof amdani. Mae'n gysur mawr cael ffrindiau triw a ffyddlon ar adeg mor anodd a thrist. Diolch yn fawr iawn i bawb.

## Bwrlwm Bro



*Dau ddyn cyhyrog yn y gystadleuaeth ymladd gobennydd*



*Mae cael cawod oer ar ddiwrnod poeth yn braf!*

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mehefin aeth rhai o aelodau'r gangen i gyfarfod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon, yn bennaf i dderbyn adroddiadau (e.e. ffurfiwyd Fforwm Anabledd Plaid Lafur Arfon a dadorchuddiwyd plac i gofio streicwyr Friction Dynamics) ac i baratoi ar gyfer y cyfarfod pob aelod.

Yna, cynhaliwyd ymgyrch a chyfarfod yng Nghaernarfon gydag Eluned Morgan,

gweinidog Llywodraeth Cymru dros Addysg Gymraeg. Eglurodd, er y bydd y dull o geisio cael miliwn o siaradwyr Cymraeg yn newid, ni fydd troi'n ôl efo'r gwaith a wnaed hyd yn hyn.

Wedyn, aeth nifer i'r cyfarfod pob aelod ym Mangor, yn bennaf i ddewis anfonogion i gynhadledd Plaid Lafur Prydain ac i enwebu cynrychiolwyr Cymru ar fforwm polisi Prydain.

Yna, yng nghanol y mis, codwyd gazebo ger cloc Bangor yn ystod y carnifal a chynhaliwyd fforwm polisi Prydeinig yng nghanolfan gymdeithasol Garth - gyda rhai o aelodau'r gangen yn cyfrannu.

Llongyfarchwn Pearl Evans, cynghorydd dros Ward Rachub, ar gael ei hethol yn gadeirydd Cyngor Bethesda am 2018-19. Yr ail dro iddi fod yn gadeirydd y cyngor.



## Paprika Porc

### Cynhwysion

2 lwy fawr o flawd.  
1 llwy fawr o paprika.  
1 llwy fawr o berlysiau.  
1 llwy de o halen.  
1 llwy de o bupur.  
(Mae'r cwbl o'r uchod ar gyfer gwneud cymysgedd blawd).

1 ciwb o stoc porc mewn ¾ peint o ddŵr poeth.  
Olew + menyn meddal.  
4 golwyth (stêc) ysgwydd porc ffres (£4 yn Morrisons).

### Dull

Gwnewch y cymysgedd blawd mewn dysgl a defnyddio peth ohono i orchuddio dwy ochr y cig.  
Ffriwch y cig yn yr olew + menyn ar wres isel mewn dysgl drom.  
Ychwanegwch y rhan fwyaf o'r cymysgedd blawd.  
Ffriwch 1-2 nionyn.  
Tywalltwch y stoc ar y cig wrth droi'r cwbl efo llwy bren.  
Rhowch y gweddill o'r cymysgedd blawd yn araf deg i'r ddysgl, a rhoi mwy o ddŵr os bydd angen.  
Wedyn, torrwch 2-3 moronen, ffa bach a ½ pupur coch wedi ei sleisio.  
Rhowch nhw efo'r cig a'r nionod.  
Coginiwch yn y popty ar 170 gradd am ryw awr.  
Peidiwch â gadael i'r cwbl fynd yn rhy sych.  
Gellwch roi mwy o ddŵr neu stoc.

Mae'n flasus iawn efo tatws newydd.

# Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk ☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

**Yr Eglwys Unedig**  
*Y Gelli Gyffwrdd*  
Cafodd plan yr Ysgol Sul daith i'r Gelli Gyffwrdd i ddiweddu'r tymor. Daethant i'r oedfa am ychydig cyn mynd gyda'u rhieni a'u hathrawon. Braf oedd gweld cymaint ohonynt yn mynd gyda'i gilydd a chawsant ddiwrnod ardderchog yn y lle hwnnw.

*Profedigaethau*  
Cydymdeimlwn â nifer o aelodau sydd wedi profi profedigaeth yn ddiweddar. Collodd Mrs Beti Rhys ewythr a chollodd Rhiannon a'r teulu chwaer tra bu i Angharad Beech a'r teulu golli mam yng nghyfraith annwyl iawn.

*Ysbyty*  
Bu rhai o'r aelodau yn yr ysbyty hefyd, gyda'r Parchg. John Owen a Mrs Myfanwy Jones yn eu plith. Anfonwn ein cofion atynt a hefyd y rhai sy'n methu dod i'r oedfaon.

*Paned a sgwrs*  
Mae'r baned wedi oedfa'r bore yn dal ei thir a nifer dda'n dod am sgwrs ac mae'r un peth yn wir am y baned ar foreau Iau. Daliwn i gael oedfaon ardderchog a diolch i Rhiannon a Menai am drefnu dwy oedfa i ni – mae'n braf cael yr aelodau'n barod i gynorthwyo'r achos

*Garddio*  
Bu Walter, Owen John a Dafydd Hughes yn brysur yn yr ardd ac mae mwy na digon o waith yno. Diolch yn fawr iddyn nhw,

*Cyhoeddiadau i ddod*  
Gorff 22: Parchg. Cledwyn Williams  
Gorff 29: Parchg. Dafydd Hughes  
Awst 5: Ms Eirlys Williams  
Awst 12: Miss Nerys Jackson  
Awst 19: Parchg. Mererid Williams  
Awst 26: Parchg Alun Spencer  
Croeso Cynnes i bawb i'r oedfaon.

*Derbyn*  
Ar nos Sul Gorffennaf 1 gyda'r Parchg. W.H. Pritchard yn gweinyddu, derbyniwyd Jennifer Roberts, 9 Glanogwen yn aelod. Cyflwynwyd hi gan Jean, ein llywydd. Mae Jennifer yn ffyddlon iawn i'n hoedfaon hwyrol ers peth amser. Derbyniwyd hi'n llawen gan bawb. Pob bendith arni.

**Graddio**  
Llongyfarchiadau mawr i Lowri Mererid Edwards, 17 Erw Las ar dderbyn gradd BSc gydag anrhydedd mewn Radiograffeg Diagnostig o Brifysgol Teeside, ym Middlesbrough, Gogledd Ddwyrain Lloegr.  
Mae Lowri wedi cael ei phenodi i swydd yn Ysbyty Glan Clwyd a dymuna'r teulu, ei chyfeillion a phobl yr ardal yn dda iddi yn ei swydd newydd. Pob lwc i ti Lowri!

**Diolch**  
Dymuna Tom Jones, Tŷ Coetmor, Brynbella, John, Ann, Joan, Meurig, Glenys, a Janet, a theulu cyfan y ddiweddar Maggie Jones, ddiolch o waelod calon i gymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbynniasant yn ddiweddar yn dilyn eu profedigaeth fawr o golli gwraig, mam, nain a hen nain annwyl iawn. Diolch i bob un ohonoch am y geiriau caredig, yr ymweliadau, y galwadau ffôn, y cardiau lu, a'r rhoddion niferus. Casglwyd £1,350, ac fe gyflwynwyd y cyfan i Ward Alaw i brynu offer er cof amdani.  
Hoffai'r teulu ddiolch yn arbennig i'r Parchedigion John Matthews a Christina McCrea am y gwasanaeth urddasol a gynhaliwyd ganddynt, ac i Christine Edwards ar yr organ. Diolch, hefyd, i Karen a holl staff Caffi Coed y Brenin am baratoi'r lluniaeth. Diolch yn arbennig i'r Ymgymwrwr, Gareth Williams, am yr holl drefniadau trylwyr a gofalus.  
Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch

**Babi Newydd**  
Llongyfarchiadau i Mared ac Alan, Stryd Glanafon, ar enedigaeth eu merch, Eleth Eurgain, ar 26 Mehefin. Llongyfarchiadau hefyd i taid a nain Rhes Buddug, sef Gwyn a Rhian Roberts.

**Ysbyty**  
Cofion cynnes a gwellhad buan at y rhai a fu'n yr ysbyty yn ddiweddar, a chofion hefyd at y sawl sy'n sâl gartref:-  
Joshua Dignam, Carneddi; Linda Elderkin, Maes y Garnedd; Heddwyn Griffith, Adwy'r Nant; Parchg. John Owen, Plas Ogwen; Elwyn Roberts, Rhes Ogwen.

**Cydymdeimlo**  
Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar ac anfonwn ein cydymdeimlad atynt i gyd:

Mr. a Mrs. Idris Lewis a'r teulu, Ffordd Bangor, wedi colli chwaer yng nghyfraith a modryb yn yr Alban, sef Mrs. Eirlys Lewis, gynt o Rhiwlas.

Gerald, Karen a Cara Ashton, Erw Las, wedi colli tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl, sef Mr. Ralph Henry Aston, Tregarth, a fu farw'n sydyn ar 21 Mehefin.

Teulu'r diweddar Mrs. Glenys Roberts, Bodffordd, sef Geraint, Rhiannon a Morfudd ar golli mam a nain annwyl. 'Roedd Mrs. Roberts yn briod â'r diweddar Barchedig Ganon Elwyn Roberts, cyn ficer Eglwys Crist Glanogwen.

Mr. a Mrs. Elfyn Roberts a'r teulu, Bryn Caseg,. Collodd Beti ei hewythr, sef y Parchedig Athro Gwilym H. Jones, Porthaethwy.

Mrs. Helen Roberts a'r teulu, Ffordd ffrydlas, wedi colli ei chwaer ym Mangor ar 10 Mehefin, sef Mrs. Beatrice Roberts.

Mr. Elwyn Jones, Pant Glas, a'r teulu. Elwyn wedi colli ei chwaer, Mrs. Rita Williams, Braichmelyn, ar 5 Gorffennaf.

**Marwolaethau**  
*Marilyn Owen*  
Yn Ysbyty Gwynedd ar 5 Mehefin, bu farw Marilyn Owen, Fflat ¼ Rhes Penrhyn yn 65 mlwydd oed. Mam annwyl Stephen a Louise, a nain Llinos, Dion, Elena a Saba, a chwaer i Pat, Raymond a Gwyneth. Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Coetmor ac Amlogsgfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

*Michael Beeby*  
Ar 5 Mehefin, yn sydyn trwy ddamwain yn ei gartref yn Erw Las, bu farw Mr. Michael Beeby, yn 57 oed. Tad annwyl Stephen a mab Mrs. Iris a'r diweddar Mr. John Beeby, gynt o Ffordd Caernarfon, Bangor. Roedd yn frawd i Maria, Maes Coetmor, Theresa a'r diweddar Peter.  
Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlogsgfa Bangor ddydd Gwener, 22 Mehefin. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

*Helen Ogwen a Doyle*  
Yn Ysbyty Gwynedd, ar 7 Mehefin, wedi salwch hir, bu farw Helen Ogwen a Doyle, 30 Adwy'r Nant, yn 76 mlwydd oed. Mam John, Bob a Catrin a nain Siôn, Dion, Ioan, Carwyn ac Elin a hen nain i Efan. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 14 Mehefin, gyda gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Ddoctor Hugh John Hughes, a chafwyd darlleniad o waith Caradog Pritchard gan Linda Brown. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

**Diolch**  
Dymuna Richard, Nigel, Cynthia, Helen a'r teulu i gyd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain a chwaer annwyl, sef y diweddar Mrs. Beatrice Roberts, Eithinog, Bangor. Diolch am y rhoddion caredig er cof amdani a dderbyniwyd tuag at Sefydliad y Galon, i'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams am arwain y gwasanaeth yn yr amlogsgfa, ac i Mr. Gareth Williams am ei drefniadau.  
  
Dymuna teulu'r ddiweddar Eileen Hennessey, Cefn y

Bryn, ddiolch i bawb am yr ymholiadau caredig yn ystod ei gwaeledd, a’r holl arwyddion o gydymdeimlad a dderbyniwyd wedyn. Diolch hefyd i Stephen Jones a’r teulu, Penybryn.

Gorffwysfan

Ar ddydd Mercher, 20 Mehefin, aeth dros 40 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Southport. Cafwyd diwrnod braf iawn a phawb wedi mwynhau.

Cofiwch am y wibdaith nesaf i Gerddi Trentham, ar ddydd Mercher, 25 Gorffennaf. Cychwyn am 8.30yb ger y gofeb ar y Stryd Fawr. Enwau i Gorffwysfan os gwelwch yn dda. Neges i’r aelodau: Cofiwch, os am gadw eich rhif fe fydd rhaid talu’r aelodaeth o £10.00 ym mis Awst i Owen John Evans neu Vernon Owen. Mae sawl aelod yn sâl, rhai wedi bod yn yr ysbyty. Anfonwn

ein cofion atoch i gyd:- Mrs. Myfanwy Jones, Gerlan; Mrs. Glenys Lloyd Jones, Glan Ffrydlas; Mrs. Val Amos, Glanogwen; Mrs. Joan Griffith, Glan Ffrydlas; Mr. Joe Evans, Glan Ffrydlas; Mrs. Christine Jones, Hen Ysgol, Rachub; Mrs. Avril Griffith, Stryd Fawr, Rachub; Mr. Vic Smith, Tregarth. Daeth profedigaeth i ran rhai o’r aelodau ac ‘rydym yn anfon ein cydymdeimlad atynt:- Mrs.

Ann Fôn Williams, Gerlan, a’r teulu; Mrs. Rhiannon Efans, Pant, a’r teulu; Mrs. Beryl Brown, Tregarth, a’r teulu.

Eglwys Crist Glanogwen

Gwasanaethau: Cymun Bendigaid pob Dydd Sul am 11:00 y bore, ac am 8:00 y bore ar Sul cyntaf pob mis. Gwasanaeth Cymun pob Dydd Mercher am 10:30 y bore gyda coffi i ddilyn. Croeso i bawb.

Wythnos Cymorth Cristnogol  
13-19 Mai 2018 – Bethesda a’r Cylch

“Gyda’n gilydd rydym yn gryfach na’r stormydd” – dyna neges Wythnos Cymorth Cristnogol 2018 gyda ffocws ar Haiti ac angen adeiladu tai cryf newydd yno ar ôl yr holl ddinistr a achoswyd gan y corwynt Matthew ym mis Tachedd 2016. Hoffem ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at yr achos eleni a llwyddodd yr ardal i godi £4,050.73 gyda bore coffi dydd Sadwrn, Mai 12 a gwasanaeth gyda’r nos Sul 13 Mai gyda rhoddion gan eglwysi’r ardal ac, yn arbennig, y casgliad o ddrws i ddrws.

Wele’r manylion isod:

Bore Coffi yng Nghefnfaes £405.00  
Gwasanaeth yn Eglwys Crist Glanogwen £124.30

Rhoddion

Eglwys St Tegai, Llandygai £50.00  
Eglwys Annibynnol Amana, Mynydd Llandygai £50.00  
Eglwys Fethotistaidd Shiloh, Tregarth £60.00  
Eglwys St Mair, Tregarth £50.00

Casgliad o ddrws i ddrws (gydag enwau’r casglwyr)

Bethesda £905.47  
(Walter Williams, Barbara Conlan, Rhiannon Efans, Angharad Huws, Barbara Owen, Jennifer Roberts, Heulwen Roberts, Gwenno Evans, Janet Hughes, Geoffrey Northam, Ian Hughes, Lester Bath, Rhian Roberts, Blodwen Dignam)  
Carneddi/Hen Barc/Cilfodan £307.70  
(Karen Williams, Falmai Davies, Menna Jones, Janet Buckles, Pat Corn, Ieuan Wyn)  
Gerlan £170.46  
(Neville Hughes, Caren Brown, Sandra Williams, Davina)

Llandygai/Bryn £290.16  
(Nerys Jones)  
Rachub £446.91  
(Chris Benson, Martin Hebenstreit, Lesley Hughes, Ffion Rowlinson, Paul Rowlinson, Helen Williams)  
Rhiwlas £414.42  
(Dilys Parry, Rhian Evans-Hill, Steffan Job, Alison, Iona Jones, Nia Jones)

Talybont £286.70  
(Barbara Jones, Jean Hughes, Enid Davies, Rita Hughes)  
Tregarth £499.61  
(Dafydd Roberts, Rosemary Williams, Angharad Williams, Fiona Williams, Valerie Hayward, Beryl Hughes, Carys Williams)



Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd ein dau ddigwyddiad yn ddiweddar, sef ein stondin yn Sioe Dyffryn Ogwen a’n bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes. Rhwng y ddau achlysur, llwyddwyd i godi symiau anrhydeddus i goffrau’r

Gangen. Braf hefyd yw medru croesawu nifer o aelodau newydd dros yr wythnosau diwethaf. Os am ymaelodi cysylltwch â Neville Hughes ar 01248 600853.



## Ysgol Llanllechid

### Gwilym Bowen Rhys

Braint oedd croesawu Gwilym Bowen Rhys a'i fand rhyngwladol i Ysgol Llanllechid i berfformio i'r plant ac efo nhw hefyd. Treuliyd orig ddifyr dros ben yn dysgu caneuon newydd o groestoriad o wahanol wledydd gan gynnwys Sweden, Ffrainc, Yr Almaen, Venezuela ac Irac. Roedd y cerddorion wedi eu cyfareddu gan frwdfrydedd ac egni'r disgyblion.

### Diolch

Diolch i Ben Stammers am ei rodd o set o lyfrau gwybodaeth am fywyd gwyllt i Ysgol Llanllechid. Rhodd gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru oedd hon. Diolch yn fawr!

### Grŵp Maeth Ysgol Llanllechid

Cynhaliwyd y Grŵp Maeth, gyda Cara Lewis, Swyddog Technegol Arlwyfaeth Gwynedd. Bu'r disgyblion yn penderfynu pa fwydydd yr hoffent ei gael ar ddiwrnodau arbennig yn yr ysgol! Da iawn chi aelodau'r grŵp am drafod mor synhwyl. Diolch i Mrs Macdonald a'i chriw am y wledd.

### Taith yr Iaith

Gwnaeth yr actor Llion Williams gymaint o argraff arnom pan ddaeth i gyflwyno ei sioe 'Taith yr Iaith', fel y penderfynwyd ei wahodd yn ôl yma i Ysgol Llanllechid i ni gael lledaenu'r neges! Diolch yn fawr am ddysgu'r disgyblion am hanes ein hiaith.

### Rapio

Mae blwyddyn 6 wedi bod yn brysur yn rapio barddoniaeth wreiddiol a gyfansoddwyd gan y disgyblion efo Mrs Marian Jones. Bydd y fideos yn ymddangos yn fuan!

### Y Wifren Wib

Braint ac anrhydedd i aelodau o gôr yr ysgol oedd cael canu hefo Mike Peters o'r Alarm a Chôr Meibion y Penrhyn mewn lleoliad anhygoel, sef yng nghrombil Chwarel y Penrhyn! Roedd hi'n agoriad llygad cael bod yn y Zip World Rocks; gwrando ar grwpiau a gweld yr unigolyn yn llithro i lawr y wifren wib, cyn i'r parasiwt agor! Noson i'w chofio! Diddorol fyddai clywed barn cyndeidiau'r plant am y digwyddiad. Yn sicr, daeth tro ar fydd!

### Pnawn Agored

Cafwyd prynhawn agored llwyddiannus a bu'r plant bach, a fydd yn dechrau hefo

ni ym mis Medi, yn chwarae'n hapus yn nosbarth Ms Rhian Haf. Edrychwn ymlaen at eu croesawu ar Fedi 4ydd, sef dyddiad cyntaf y tymor i'r holl blant (Y dyddiad cyntaf i'r athrawon yw Medi 3ydd)

### Cymdeithas Rhieni/Athrawon

Mae'r Gymdeithas hon yn mynd o nerth i nerth dan gadeiryddiaeth Angharad Llwyd Beech. Mae dau weithgaredd ar y gweill sef beicio noddedig ar Orffennaf 6ed a bingo ar ddiwedd y tymor ar Orffennaf 18, yn y Clwb Criced. Rydym mor ffodus o'n Cymdeithas Rhieni/Athrawon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maent wedi prynu pob math o bethau i Ysgol Llanllechid gan gynnwys llyfrau, adnoddau a chyfrannu tuag at gost tripiâu. Diolch o waelod calon i bob un ohonoch sy'n ymdrechu, ac yn gweithio'n galed i gefnogi Ysgol Llanllechid.

### Cyfeiriannu

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 ddiwrnod o hwyl yn cystadlu yng nghystadleuaeth cyfeiriannu ym Mharc Padarn, Llanberis yn ddiweddar. Bu'r criw yn brysur yn ymarfer eu sgiliau darllen map a datrys problemau. Llongyfarchiadau i Cian, Cai, Afra ac Osian. Aeth y disgyblion hyn ymlaen i gystadlu ym mhencampwriaeth Gwynedd yng Nglynllifon.

Llongyfarchiadau fil i Cian McLeod a Cai Jones (blwyddyn 6) ar ddod yn ail yn y bencampwriaeth hon. Aeth y ddau ymlaen i gystadlu ym mhencampwriaeth Gogledd Cymru draw yn Llanidloes! Camp yn wir! Ardderchog hogia! Braf yw gweld ein disgyblion yn serennu fel hyn!

### Ras Draws Gwlad

Cynhaliwyd ras draws gwlad yr Urdd ar Stad y Faenol yn ddiweddar. Roedd y canlynol yn cymryd rhan o'n hysgol ni: Dylan Billington, Gwydion Eryri, Gwilym Vierra, Seren Roberts, Bethan Billington, Seren Hinchliffe a Madeleine Sinfield. Llongyfarchiadau gwresog i chi. Daeth Bethan o flwyddyn 5 yn ail allan o 72 o redwyr. Anhygoel! Daliwch ati, bawb ohonoch!

### Glynllifon

Cafodd dosbarth blwyddyn 5, sef dosbarth Mr Stephen Jones ddiwrnod anhygoel yng Nglynllifon yn ddiweddar wrth iddynt ddysgu am fyd amaeth a chefn gwlad. Cafwyd cyfle i bysgota, ac i weld adar a chwn hela yn cael

## Nyth Y Gân

### Y Berth

Mae'n ddiwedd yr haf ac mae'r bore Yn dawel tu hwnt ym mhob man,  
Y berth sydd mewn dail ac yn cysgu  
A phopeth yn edrych mor wan.

Does dim ond hedda llongyddwch  
A gwenyn a glywir o bell  
Yn hedfan o flodyn i flodyn  
Yn casglu y neithdar i'w cell.

Mae'r haf yn dyfod i'w derfyn  
A'r dail sy'n flinedig a thrwm,  
Cyn hir bydd yr hydref yn dyfod  
I droi yr holl frigau yn llwm.

Daw eto yn ôl yr un patrwm,  
Daw blagur a thyfiant i'r berth,  
A hynod o braf fydd cael edrych  
A gwir werthfawrogi eu gwerth.

### Tatws Llaeth

Ei thaenu â llaeth enwyn a'i blasu  
Sy'n bleser bob mymryn;  
O'i thw iach y maeth yw hyn  
A roddwyd gan y priddyn.

### Morlo'n ymlacio

Torheulo 'ngwynt yr heli, a'r tonnau  
Mawr tyner yn golchi  
Y gro mân ger y meini  
Yn lân yn y glasaf li.

### Llestri Pridd

(Sgroliau'r Môr Marw a ganfuwyd mewn  
ogof yn 1947 gan dri bugail ifanc.)

Sgroliau gwyh amserau gynt yn wreiddiol  
'Roddwyd yn gudd ynddynt;  
Rhodd yr ysgrythur oeddynt  
A roed i dri ar eu hynt.

### Dafydd Morris

eu hyfforddi. Dysgwyd am anifeiliaid megis y wiwer goch, tylluanod a ffesantod ac am waith heddlu cefn gwlad. Cafodd disgyblion blwyddyn 5 yr anrhydedd o enwi tylluanod Mr John Islwyn Jones yn ystod eu hymweliad â Glan Llyn yn ddiweddar. Dyna i chi anrhydedd! Enwyd y tylluanod yn Dafydd a Llywelyn, ar ôl ein tywysogion. A chredwch chi byth pwy oedd yno yn aros amdanom yng Nglynllifon?! Ia wir, neb llai na Dafydd a Llywelyn! Diwrnod gwerth chweil!



# Ysgol Abercaseg

## Sioe Neuadd Ogwen

Bu Bl. 1 a Bl. 2 a chriw o Ysgol Pen y bryn yn gwylio sioe Na Nel gan Gwmni Theatr Arad Goch. Braf oedd gweld pob plentyn yn mwynhau'r sioe.

## Diwrnod Trosglwyddo

Treuliodd y plant fydd yn dechrau'n y dosbarth meithrin ym mis Medi fore yn yr ysgol ac aeth plant Bl. 2 i Ysgol Pen y bryn am y diwrnod. Mae'n chwith meddwl amdanynt yn gadael yr ysgol ddiwedd y tymor gan fod pob un ohonynt wedi cyfrannu i fywyd yr ysgol. Pob hwyl iddynt ym Mlwyddyn 3.

## Sioe Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i bawb a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth gwaith celf sioe Dyffryn Ogwen. Bu nifer o'r plant ymhob dosbarth yn llwyddiannus.



Plant Ysgol Abercaseg gyda 'u gwaith celf

## Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol y mis yma a braf oedd gweld y cae yn orlawn o rieni yn mwynhau gwylio eu plant yn cystadlu.



Y plant yn cystadlu yn y mabolgampau

## Casglu topiau poteli llefrith

Diolch yn fawr i bawb a fu'n casglu topiau poteli llefrith ar gyfer achos da.

## Diolch

Diolch i dafarn y Bull am eu rhodd ariannol i'r ysgol.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Miss Siân a Steffan ar enedigaeth eu merch, Eli Mai, chwaer fach newydd i Jac. Mae Eli Mai yn ddigon o sioe. Cofion cynnes atoch chi i gyd gan staff Ysgol Abercaseg.

# CHWILAIR

## Clwb Golff St. Deiniol Bangor

|   |   |   |   |   |   |   |              |              |              |              |              |              |              |              |              |              |              |   |   |
|---|---|---|---|---|---|---|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|---|---|
| A | A | W | F | H | Y | P | <del>B</del> | <del>R</del> | <del>Y</del> | <del>N</del> | <del>I</del> | <del>A</del> | <del>U</del> | <del>B</del> | <del>A</del> | <del>C</del> | <del>H</del> | R | I |
| E | J | L | C | M | B | R | E            | V            | B            | H            | X            | J            | U            | I            | S            | V            | S            | H | E |
| T | I | M | T | G | V | H | O            | N            | M            | D            | W            | H            | U            | Z            | M            | X            | V            | A | D |
| D | U | N | A | W | P | A | U            | L            | Y            | Q            | U            | S            | O            | F            | R            | P            | Y            | Q | Z |
| G | R | A | H | C | L | Y | U            | M            | Y            | B            | W            | N            | O            | Y            | R            | I            | A            | S | Z |
| U | T | F | T | D | N | L | M            | X            | U            | G            | O            | P            | W            | R            | H            | C            | Q            | H | W |
| E | H | O | Y | R | E | O | Y            | A            | E            | G            | F            | N            | E            | O            | M            | H            | E            | P | T |
| T | C | B | B | C | Y | U | L            | T            | E            | U            | J            | A            | C            | P            | L            | T            | M            | I | V |
| V | D | D | C | B | B | F | F            | A            | W            | S            | R            | F            | O            | G            | J            | V            | I            | I | R |
| R | D | X | I | M | H | T | A            | T            | C            | R            | O            | S            | K            | O            | P            | W            | R            | C | M |
| K | E | C | B | O | R | C | X            | N            | V            | R            | R            | N            | Y            | H            | S            | T            | M            | R | E |
| F | W | Y | N | T | J | D | Z            | H            | B            | C            | O            | W            | O            | S            | C            | R            | A            | I | X |
| N | I | I | I | N | L | X | J            | J            | M            | L            | B            | T            | W            | T            | L            | E            | X            | M | D |
| X | D | K | G | A | F | U | P            | C            | Y            | Q            | Y            | O            | N            | E            | I            | L            | F            | E | R |
| Z | R | Q | E | P | R | O | C            | S            | T            | D            | G            | W            | R            | Y            | S            | L            | Z            | E | B |
| E | O | A | C | R | J | K | O            | J            | C            | L            | N            | A            | L            | R            | R            | V            | O            | G | J |
| P | W | P | N | I | G | R | S            | O            | W            | J            | W            | J            | Q            | U            | L            | B            | F            | S | V |
| T | X | E | A | U | T | G | H            | S            | L            | H            | Z            | E            | A            | F            | X            | I            | W            | T | Z |
| H | K | V | L | A | G | B | N            | K            | C            | A            | D            | S            | I            | K            | O            | G            | D            | H | B |
| S | I | U | G | R | O | X | A            | Y            | G            | X            | R            | A            | E            | E            | K            | K            | D            | A | N |

Yn y chwila'r mis yma mae enw deuddeg TWLL GOLFF YN CLWB St. DEINIOL, BANGOR, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwila'r dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn MEDI 1af. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

Mae nifer o ddarlennwyr y Llais yn aelodau o Glwb Golff St. Deiniol Bangor, ac felly mae ychydig o gysylltiad rhwng y Clwb ac ardal y Llais. Mae enwau diddorol ar y tyllau ac mae o leiaf pump llythyren i bob ateb. **Dyma atebion Mehefin:** Alwyn Rowlands; Doris Shaw; Elfed Bullock; Elizabeth Buckley; Gareth a Sara Oliver; Gwenda Bowen; Huw Parry Jones; John a Meirwen Hughes; Mair Jones; Marilyn Jones; Rosemary Williams; Roslyn Owen. **Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Helen Jones, Erw Las; Elizabeth Buckley, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Mrs Ann Williams, Glasinfryn; Mair Jones, Ffordd Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; John R. Jones, Llanllechid; Mrs Liz Hughes, Tregarth; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Barbara Owen, Rhos y Nant; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Myfanwy Jones, Gaerwen; Margaret Williams, Rhos y Coed; Eira Hughes, Ffordd Ffrydlas; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog; Barbara Ann Conlan, Glanogwen; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gwenda Bowen, Gerlan. **Enillydd Mehefin oedd:** Barbara Ann Conlan, 53 Glanogwen, Bethesda LL57 3PG.

## Ffarwelio

Rydym yn ffarwelio â Mrs Kelly Humphreys a fu'n aelod gwerthfawr o staff yr ysgol. Rydym i gyd yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd. Yn ogystal â ffarwelio â Mrs Humphreys rydym yn dymuno'n dda i Miss Tracey a Miss Sara a fydd yn dilyn cyrsiau yn y brifysgol ym mis Medi a hefyd i Miss Sadie a fydd yn ymuno â staff Ysgol Pen y bryn. Dymuniadau gorau i chi gyd a diolch yn fawr am eich gwaith caled yn cefnogi'r disgyblion.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



**2018**

21 Gorffennaf – Caffi Coed y Brenin – Clwb Peldroed Mynydd Llandygai.

08 Medi – Caffi Coed y Brenin – NSPCC

15 Medi - Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.

22 Medi – Cefnfaes – Eglwys St. Tegai

29 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru.

06 Hydref – Cefnfaes – Gorffwysfan.

13 Hydref – Cefnfaes – Cronfa Tracy Smith

20 Hydref – Cefnfaes – Eglwys St. Cedol.

27 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

03 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.

10 Tachwedd – Cefnfaes – Clwb Camera

24 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC

24 Tachwedd – Cefnfaes – Cronfa Cancr y Prostrat.

01 Rhagfyr – Cefnfaes – Plaid Lafur

*Pwysig*  
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.*  
*Bydd yn cael ei diweddarw ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

**Marchnad Ogwen**

**Awst 11eg**  
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

**Medi 8fed**  
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

**Hydref 13eg**  
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

**Bwydydd, Crefftau, Lleol**

[www.marchnadogwen.co.uk](http://www.marchnadogwen.co.uk)  
Facebook

**CANOLFAN CEFNFAES**

**GYRFA CHWIST**  
GORFFENNAF 24 a 31  
MEDI 11 a 25  
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

Caffi Coed y Brenin

**Bore Coffi NSPCC**

**Sadwrn, 8 Medi**  
10.00 - 12.00  
Mynediad: £1.00

Caffi Coed y Brenin

**Bore Coffi Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygai**

(Er cof am Dafydd Rose)

**Sadwrn, 21 Gorffennaf**  
10.00 - 12.00  
Mynediad: £1.00

**EGLWYS ST. TEGAI, LLANDYGAI**

**25 Awst:**  
**GARDDWEST ST. TEGAI**

Parc y Penrhyn (prynhawn)

Stondinau, adloniant, lluniaeth.

Croeso i bawb.  
Tocynnau: £5.00 wrth y drws.

**CANOLFAN CEFNFAES**

**BORE COFFI EGLWYS GLANOGWEN**

SADWRN, 15 MEDI  
10.00 – 12.00  
MYNEDIAD : £1.00

**CANOLFAN CEFNFAES**

**BORE COFFI EGLWYS ST. TEGAI**

SADWRN, 22 MEDI  
10.00 – 12.00  
MYNEDIAD: £1.00

**Douglas Arms Bethesda**

Cystadleuaeth Garlleg Moriarty-Thomas.  
**Sadwrn 18 Awst 2018**  
o 3 y pnawn ymlaen

**LLYFRGELL BETHESDA**

Mae yn amser  
**Sialens Ddarllen yr Haf**  
unwaith eto....  
a **Dyfeiswyr Direidi**  
ydi thema'r flwyddyn yma.

Rhaid ymweld â'r Llyfrgell  
3 gwaith a darllen 9 o lyfrau i  
gwblhau'r sialens,

ac i dderbyn Tystysgrif a Medal.  
Mae sticeri a gwobrau am ddim  
i'w cael hefyd.

Felly, dewch i'ch Llyfrgell leol i  
ymuno. Cawsom 66 yn cymeryd  
rhan y flwyddyn diwethaf!

Beth am drio curo 70  
neu fwy yn 2018 ?

# Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,  
Llandygái, Bangor LL57 4HU  
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,  
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU  
☎ 01248 351633

**Codi arian**

Cynhaliwyd Bingo'r Eglwys ar nos Iau, Mehefin 21ain am 7 o'r gloch yn Neuadd Talgai yn y pentref. Daeth nifer helaeth draw i fwynhau'r hwyl. Diolch i Pauline a Raymond am alw'r rhifau ac am geisio cadw trefn ar y chwaraewyr!

Cawsom stondin anrhegion a llyfrau ail-law yn Ysbyty Gwynedd ar ddydd Llun Mehefin 25ain. Mae'r staff, yr ymwelwyr a'r cleifion bob amser yn hael wrth brynu'r nwyddau a gwnaethpwyd £192 o elw. Diolch iddynt oll a diolch i'n gwirfoddolwyr am eu hamser.

**Ymweliad yr Archddiacon**

Roedd yr eglwys o dan ei sang nos Fawrth Mehefin 19eg i groesawu Archddiacon newydd Bangor sef yr Hybarch Mary Stallard. Mynychwyd y gwasanaeth gan glerigion a swyddogion Synod Bangor. Dymunwn bob bendith ar ei gweinidogaeth yn yr ardal.

**Llwyddiant**

Mae Angus Coynegrell o Eilian,Llandygai wedi graddio gydag Anrhydedd o Goleg Rhydychen,ac yn dychwelyd yno i wneud Gradd Meistr. Llongyfarchiadau iddo ar ei lwyddiant ac ar ei benblwydd yn 21ain ar Orffennaf 14.

**Damwain**

Mae Betty Marshall o'r gynulleidfa yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Llandudno ar ôl codwm yn yr ardd. Rydym yn gyrru pob dymuniad da iddi am wellhad buan.

**Garddwest y Tair Eglwys**

Unwaith eto roedd cryn baratoi ar gyfer yr Arddwest yn Ficerdy Pentir ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 14eg. Mae'r stondinau'n boblogaidd bob tro ac rydym yn dra diolchgar i bwyllgor y Tair Eglwys am blethu'r cyfan i ddiwrnod llwyddiannus.

**Bedydd**

Cafwyd dau fedydd yn Sant Tegai ar yr un dydd Sul ar Orffennaf 1af. Y cyntaf oedd bedydd LaToya Jolene Macey Janes o Faesgeirchen ond yn un sydd â chysylltiad teuluol â'r eglwys. Yr ail oedd bedydd Charlotte Louise McSorley-Jones. Mae Charlotte a'i chwiorydd mawr, Hannah ac Emily, gyda'u rhieni Sarah a Kevin yn addolwyr rheolaidd. Wrth gwrs mae Nain,

sef Avril Williams, yn falch i rannu sedd efo'r teulu bach! Pob bendith arnynt i gyd.

**Garddwest Penrhyn**

Dyma ddyddiad i'ch dyddiadur! Cofiwch am Arddwest Sant Tegai ym Mharc Penrhyn drwy ganiatâd caredig Mr a Mrs Richard Douglas Pennant. Bydd yr arddwest ar brynhawn Sadwrn olaf mis Awst (sef penwythnos Gŵyl y Banc), Awst 25ain gyda stondinau, adloniant a lluniaeth. Cofiwch mai trwy giât Porth Penrhyn mae'r mynediad! Tocynnau £5 ar werth wrth y drws a chroeso i bawb.

**Bore Coffi**

Bydd cyfle i ddod draw i Ganolfan Cefnfaes am baned a sgwrs ar ddydd Sadwrn Medi 22ain. Edrychwn ymlaen at eich gweld!

**Gwasanaethau Sant Tegai**

Nos Sul Gorffennaf 22ain am 5 yr hwyr, gwasanaeth Taizé Bro Ogwen

Gorffennaf 29ain (5ed Sul yn y mis) am 9.30 y bore, Cymun Bendigaidd

Y drefn arferol yn Sant Tegai yn y mis yw: Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y bore.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y bore.

Nos Sul Awst 26ain am 5 yr hwyr, gwasanaeth Taizé Bro Ogwen

**Sefydliad y Merched,Llandygai. Penblwydd yn 100 oed**

Mae cangen Sefydliad y Merched y pentref yn dathlu ei phenblwydd yn gant oed eleni. Ar ddydd Mercher Mehefin 20ed,aeth rhai o'r aelodau ar daith i ymweld a Gwinllan a pherllan Pant Du yn Penygroes a chael blasu ychydig o'r diodydd oedd ar gael yno. Cawsant ddiwrnod difyr iawn.

Mehefin 27ain oedd dyddiad ein canfed pen-blwydd.

Cawsom ddathliad arbennig iawn ar b'nawn hyfryd o Haf yn Neuadd Talgai.

Rhoddodd Eirlys groeso cynnes i bawb. Gwahoddwyd dwy aelod o bob Sefydliad cyfagos, ynghyd â Llywydd ac aelodau'r Ffederasiwn Caernarfon, i ddathlu gyda ni.

Gofid inni i gyd oedd bod Eira yn absennol oherwydd gwaeledd. Anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau gorau ati.

Gofynnodd Eirlys am funud o dawelwch i gofio am y cyn-aelodau a weithiodd ac a wnaeth y Sefydliad yn bosibl i ni heddiw.

Yna daeth plant o'r ysgol i'n diddori a chanu inni. Pleser oedd eu clywed.

Mwynhaodd pawb y te prynhawn a ddarparwyd gan Gaffi Coed y Brenin, a thorriwyd y gacen pen-blwydd hyfryd, ynghyd â gwydraid o win.

Rhoddodd Margaret Lloyd Jones, Llywydd Ffederasiwn Caernarfon, anerchiad byr gan ddymuno'n dda i'r dyfodol. Derbyniwyd sawl

cerdyn ac anrheg. Cafwyd gair byr o atgofion gan Rita a Sheila a Pat Jones.

Dyna b'nawn arbennig a llwyddiannus, a phawb wedi mwynhau.

**Parti'r Pentref**

Cawsom bnawn difyr yng nghwmni'n gilydd ddechrau mis Gorffennaf .Cyfarfu 40 ohonom yng ngardd Elin a Tomi ,a chael bwyd blasus a rhoi'r byd yn ei le.

**Rita Thomas yn rhannu atgofion ar ganmlwyddiant Sefydliad y Merched Llandygai.**

Mae gennyf lu o atgofion hapus am Sefydliad y Merched, Llandygai, lle'r oedd fy mam, Mrs Trevor Williams (Ethel), yn aelod am 71 o flynyddoedd. Ymunodd â'r gangen yn 15 oed, efo'i ffrind, Mabel. Mae gen i lun o'r ddwy wrth iddynt ddathlu trigain mlynedd gyda'r Mudiad.

Daliodd Mam swyddi'r Llywydd; Is-lywydd; Trysorydd ac Ysgrifenyddes, yn ogystal â bod yn gyfrifol am rannu dyddiaduron, a chylchgrawn Sefydliad y Merched, 'Home and County'.

Cyn iddi gael ei galw i borfeydd brasach, dim ond pedwar cyfarfod a gollodd Mam mewn 71 o flynyddoedd sef ar fy ngenedigaeth i a'r adeg pan fu farw ei thad a dau gyfarfod arall.

Byddai Sefydliad y Merched yn cynnal llawer o gyrsiau, o waith lledr i ddawnsio gwerin, yn ogystal â chanio a photelu ffrwythau yn eu tymor. Gyda llaw, mae'r peiriant canio, erbyn hyn, yn Amgueddfa Sain Ffagan yng Nghaerdydd.

Roedd cwiltio hefyd yn ffefryn arall gan lawer o'r aelodau.

Cynhaliwyd arddangosfeydd bylbiau yn flynyddol, a sioeau cynnyrch.

Enillodd tîm dartiau'r Gangen Dlws Sefydliad y Merched a menter arall ar ran y Gangen oedd Taith Gyfnewid i Utrecht, yn yr Iseldiroedd. Roedd Mam wrth ei bodd gyda thaith felly a gwnaeth nifer o ffrindiau da.

Eleni, hyd yma, mae gennym bedair aelod newydd. Gobeithiwn y byddwn yn mynd ymlaen o nerth i nerth.

Ar ddiwedd ei hanerchiad diolchodd Rita Thomas i bawb am ymuno â hi a phawb arall yn y cyfarfod dathlu.

## Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR

Llun - Gwener 18:00 - 23:00  
Sadwrn 15:30 - 00:00  
Sul 13:00 - 16:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com

01248 600219





# Y Dyddiadur toriadau (3)

Detholiad gan Derfel Roberts

Adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel ‘Y Cloriannydd’ wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933 oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.

Y Pleidiau gwleidyddol

Mae’r dyfyniadau isod yn dangos bod llawer mwy o ddiddordeb yng ngweithgareddau’r pleidiau gwleidyddol yn y 30au a pha mor fywiog a thanbaid eu hymlyniad wrth blaid.

I ddangos pa mor ddiduedd oedd John Owen, Garnedd Wen a gohebwy’r papur lleol, cynhwysir adroddiad am Yrfa Chwist (Whist Drive) a gynhaliwyd er budd Cymdeithas Geidwadol Môn.

Mae’n amlwg felly nad ffenomen newydd oedd ceidwadaeth ar y Fam Ynys! Meddai’r adroddiad;

“Mae’n debyg na welwyd gwell gwobrau erioed yma ac yr oeddynt wedi eu rhoddi gan y rhai canlynol: Mr a Mrs Horridge, Plas Llanfair; Mrs Terry, Carreg Bran; Mrs Clegg, Bryn Llwyd; Mr Jones, Sunnyside, a Mrs Jones, Morfa. Y trefnydd oedd Mr Ernest Salt, ysgrifennydd y blaid yn cael ei gynorthwyo gan Mr Miller.”

Yna ceir rhestr eitha’ hir o’r enillwyr oedd yn cynnwys Mr John Owen, Garnedd Wen ei hun er na ddywedir beth oedd y wobr a

gafodd am ei gefnogaeth i’r achos.

Ar ochr arall y ddalen er mwyn cadw’r ddysgl yn wastad megis, ceir adroddiad am y Cenedlaetholwyr a’r Rhyddfrydwyr. Adroddwyd bod Cymdeithas Ryddfrydol Llanfair wedi methu cael siaradwr i ddadlau gyda’r Athro Daniel ac meddai’r adroddiad, gan ddyfynnu Mr T. E. Jones, Ysgrifennydd y Rhyddfrydwyr Ieuanc;

“Ni ddaeth cais swyddogol am hyn. Fel hyn y bu (rhoddaf y llythyr fel y cefais ef air am air”);

Y Blaid Genedlaethol Gymreig, Cangen Llanfairpwll, Tach 2 1932

Annwyl Mr Jones,  
Dymuna’r gangen leol o’r Blaid Genedlaethol roi sialens i’ch cangen chwi i ddadl. Buasai’n mynd yn gyfrifol am hanner costau’r ystafell etc. gyda’ch cangen chwi. Bydd gennym gyfarfod nos Wener nesaf a hoffem gael atebiad gennych ynghyd â’ch telerau erbyn hynny.

Yr eiddoch yn bur,  
Beti Owen, Ysg.

Mewn ymateb braid yn biwis i lythyr Beti Owen mae ysgrifennydd y Rhyddfrydwyr yn dweud hyn:

At gangen leol y Rhyddfrydwyr Ieuanc y gwnaed y cais. Derbyniwyd yr her ac mewn cyfarfod o’r gangen a gynhaliwyd Tachwedd

16, 1932 a Mr W. Jones, Bryn Salem yn y gadair, pasiwyd bod Misses Morris-Jones, M.A., Ty Coch, Madge Jones, Llwyn Onn, Mr Schubert Jones, B.Sc. a’r llywydd i siarad dros y gangen yn y ddadl. Cyflwynwyd y penderfyniad uchod gennyf i’n bersonol i Miss Beti Owen, ac ni chlywyd gair mewn atebiad hyd heddiw. Caiiff y ffeithiau uchod siarad drostynt eu hunain, a’r wlad benderfynnu pwy sydd ar fai.

Yna, ceir adroddiad gyda’r pennawd,

SIALENS I DDADL

Parthed y sialens a roes y Cenedlaetholwyr i’r Rhyddfrydwyr, gofynna gohebydd beth yw’r eglurhad?

“Hoffai pawb yma glywed y ddwyblaid yn ymddadlau a deilliai llawer o les a gwybodaeth o gyfarfod tebyg i hwn,” medd ef; “newynir am gyfarfodydd o’r natur hwn i oleuo’r plwyfolion ac nid eu diddori yn unig a sosials, ymgomwest a gwleddoedd corfforol. Gobeithio y trefna y Blaid Genedlaethol i ddwyn eu siaradwyr ymlaen, gan fod yr ochr arall wedi pennu ar eu dadleuwyr, sef Mr Schubert Jones, Mr William Jones, Miss Madge Jines, (Llwynonn), a’r ddwy Miss Morris-Jones o’r Tŷ Coch. Os nad yw’n gyfleus i’r Athro Daniel ddod, fe wna Mr Owen Huws, a’r cadeirydd a’r ysgrifennydd lleol ymgymryd â’r gwaith yn ddiau.”

## Llais Ogwan

Dilynwch ni ar trydar

### Contractwyr Trydanol

### Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



## Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i Mrs Elna Jones, 6 Cefn Cwlyn ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Llawdriniaeth

Mae Conor Bullock, 4 Gernant wedi torri ei fraich ac wedi cael llawdriniaeth arni. Dymunwn y gorau iddo.

Tân ar y mynydd y tu ôl i’r tai ym Mraichmelyn

Bu dynion y Gwasanaeth Tân yn brysur iawn yn diffodd tân y tu ôl i’r bythynnod a dychrynwyd y trigolion yn fawr pan gawsant eu deffro gan yr heddlu i fod yn barod i adael eu cartrefi. Fel y digwyddodd

pethau ni fu’n rhaid gadael a diffoddwyd y tân yn y diwedd. Mae’r tywydd poeth wedi ei gwneud yn beryglus oherwydd y sychder sy’n golygu bod tanau medru lledaenu’n sydyn. Rhaid i bawb fod yn wylidwyr rhag i hyn ddigwydd eto. Diolch fod pawb yn iawn a diolch i’r Gwasanaeth Tân am fod mor brydlon eu hymateb.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Rita Williams yn eu profedigaeth o golli mam a nain werthfawr iawn. Roedd Rita’n cerdded yr ardal yn aml cyn ei gwaeledd. Meddyliwn am Alan, Nerys a’r teulu oll yn eu galar.

Ysgol Tregarth



Diwrnod Mabolgampau Ysgol Tregarth

**Mabolgampau**  
Dyma braf oedd gweld caeau'r ysgol yn orlawn ar gyfer ein mabolgampau. Cafodd pawb gyfle i gymryd rhan mewn llawer o gystadlaethau gwahanol a chyfle i gynrychioli eu timau yng nghwmni rhieni a ffrindiau'r ysgol. Da iawn i bob un gymerodd ran, a diolch o galon i bawb ddaeth i gefnogi.

**Glan Llyn**  
Diolch i'n ffrindiau o ysgolion y dalgylch ddaeth i Glan Llyn am benwythnos gwyd o hwyl gyda ni. Cafodd criw o blant blwyddyn 5 a 6 amser arbennig yno yn dysgu sgiliau newydd megis canwio a dringo yn ogystal â'r cyfle i gymdeithasu gyda phlant eraill o'r ardal. Diolch i staff yr ysgol wirfoddolodd i fynd yno am y penwythnos gyda'r plant.

**PC Owain**  
Cafodd disgyblion yr ysgol sgwrs ddiddorol iawn gyda PC Owain yn ddiweddar. Braf oedd eu gweld yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i'w gwestiynau. Diolch yn fawr iawn i PC Owain am alw draw i ymweld â'r plant.

**Rhieni newydd**  
Cafwyd prynhawn hyfryd ddiwedd mis Mehefin wrth i'r ysgol groesawu disgyblion y dyfodol a'u rhieni. Roedd y neuadd yn orlawn a chafwyd prynhawn difyr o rannu gwybodaeth am yr ysgol gan Mrs Jones. Bu'r plant bach yn brysur yn chwarae ac yn peintio - ac roeddent yn ddigon o sioe! Croeso atom i Ysgol Tregarth.

**Diwrnod Trosglwyddo**  
Tra bod plant Blwyddyn 6 yn treulio

diwrnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen cafodd gweddill yr ysgol gyfle i dreulio diwrnod yn eu dosbarthiadau newydd. Roedd hi'n braf croesawu'r plant fydd yn dod i'r dosbarth Meithrin ym mis Medi. Diolch yn fawr iawn i Anti Shirley am drefnu a pharatoi prynhawn blasu ar gyfer ddisgyblion yr ysgol a'u rhieni.

**Dathlu Doniau**  
Llongyfarchiadau mawr i Erin Morris ar ddod i'r brig yng nghystadlaethau gymnasteg yn ddiweddar. Aeth Erin am y diwrnod er mwyn cystadlu mewn amryw o gystadlaethau gymnasteg, fe ddaeth yn gyntaf mewn 3 cystadleuaeth yn ogystal ag ennill tlws am fod yn bencampwr y diwrnod. Rydym yn falch iawn ohonot!



Erin Morris, enillydd y gystadleuaeth gymnasteg

**Y Gadeirlan, Bangor**  
Yn ystod wythnos olaf mis Mehefin bu disgyblion blwyddyn 6 yn y Gadeirlan ym Mangor i fynychu gwasanaeth gadael i ddisgyblion Blwyddyn 6 gan eu bod yn trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r Ysgol Uwchradd yn mis Medi. Cawsant gyfarfod gyda'r Esgob a chael cyfle i ganu a gwyllo dramâu am storïau Beiblaidd. Roeddynt wrth eu bodd yn cael derbyn eu beiblau newydd sbon a bagiau unigryw.

**Pentref Peryglon**  
Yn ddiweddar bu disgyblion Bl 5 a 6 ar ymweliad arbennig i Bentref Peryglon yn Talacre. Pentref arbennig iawn yw hwn, mae'n llawn esiamplau o beryglon sy'n wynebu plant a phobl ifanc yn eu bywydau pob dydd yn y cartref neu allan ar y stryd fawr. Cawsant gyfarfod a chreadur arall fyddol o'r enw K-OS oedd yn eu helpu ar hyd y daith i ddysgu sut i fod yn ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

**EGLWYS UNEDIG  
BETHESDA  
LLENWI'R CWPAN**

Dewch am sgwrs a phaned.  
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

**BYSUS  
D. J. Owens  
RHIWLAS**

**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIÖN AC ATÍ.

**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**SAMARIAID**

Mac  
**Llinell Gymraeg**

**0808 164 0123**

ar gael bob nos rhwng  
**7.00pm ac 11.00pm**



# ‘Plentyn y Rhyfel’

## gan Wyn Thomas (parhad) - golygwyd gan Derfel Roberts

### PENNOD 3

Effaith a barhaodd am flynyddoedd ac a ddysgodd sgiliau i nifer o ddynion Bethesda oedd gweld ffatri Saunders Roe yn symud i Fiwmares. Roedd ffatri wreiddiol Saunders Roe ar Ynys Wyth ac yno roedden nhw’n adeiladu’r awyrennau oedd yn hedfan o Sir Benfro i chwilio am longau tanfor - yr ‘U-boats,’ yn y Môr Iwerydd. Pan gynigiodd yr Unol Daleithiau roi awyrennau Catalina i Brydain, cwmni Saunders Roe a gafodd y cytundeb i’w harfogi. Roedd hynny oherwydd bod yr Unol Daleithiau, cyn ymuno â’r Rhyfel, yn rhoi llongau ac awyrennau i Brydain, ond roedd rhaid i’r rheiny fod heb arfau neu byddai’r Almaen yn ystyried peth o’r fath fel gweithred ryfelgar. Gan fod Ynys Wyth yn rhy agos i lwybrau awyrennau bomio’r Almaen, y penderfyniad oedd sefydlu ffatri arall mewn lle anghysbell er mwyn arfogi’r awyrennau hyn, a’r dewis oedd Biwmares. Daeth pobl i arfer gweld yr awyrennau hyn yn glanio ar wyneb y Fenai. Parhaodd y ffatri ym Miwmares am flynyddoedd wedi’r rhyfel ac yno y dysgodd hogiau Bethesda sgiliau arbennig, ac yno y dysgais innau fod yn ddrafftmon dylunio neu’n ‘design draughtsman’ yn y 1950au.

Effaith arall y ‘blitz’ oedd achosi prinder, yn arbennig prinder dillad a bwyd. *‘Make do and mend’* oedd y term am ail-addasu a phasio hen ddillad ymlaen a gwelais hynny’n digwydd yn aml yn ein tŷ ni, gan mai gwniadwraig oedd mam. Roedd hi’n gallu addasu dillad yn ogystal â’u creu. Rhywfodd neu’i gilydd, ‘roedd defnydd parasiwt yn dod i law ac aml i dro y gwelais fy mam yn gwneud peisiau i ferched yr ardal, a meddwl tybed ai o weddillion awyrennau oedd yn disgyn ar y mynyddoedd yr oedd y defnydd yn dod? Pethau fel y rhain a’r darnau o ffenestri plastig clir oddi ar yr awyrennau yr oedden ni’r plant yn eu troi yn fathodynau, modrwyau a theganau gyda chyllyll poced. Roedden ni’n defnyddio’r cetris bwledi i chware gemau marblis gan nad oedd marblis gwydr i’w cael yn ystod y rhyfel.

Roedd milwyr yn cyrraedd Bethesda, ynghyd ag ambell gatrard o’r *home guard* oedd yn y fro. Roedd milwyr yn ymarfer yn yr ardal, ac mae gennyf gof o rai’n dysgu ‘parasiwtio’ o falw’n ger y cae pêl-droed.

Mae eraill yn cofio rhai’n ymarfer ger adeilad y Drill Hall, y tu cefn, fwy neu lai, i Res Gordon.

Roedd y prinder yn peri bod nifer o hen ddillad gwau yn cael eu datod yn araf, a fy nhasg i oedd cadw dwy fraich ar led gyda’r gwlân wedi ei weindio o’u hamgylch, tra roedd mam yn ei droi’n belen ar gyfer ei ail-weu. Gwaetha’r modd, nid oedd gwobr o dda-da ar gael yn wobwr am fy ymdrech, gan fod y fath ddanteithion yn cael eu dogni, neu fel y dywedem ni, “*ar rations.*”

### Dogni bwyd


Dw i’n cofio’r llyfr dogni neu’r llyfr *rations*, a’r stampiau pwyntiau oedd eu hangen i brynu pethau fel da-da. Erbyn 1945, dyma oedd un person yn ei gael am wythnos: 4 owns o facwn neu ham, 8 owns o siwgr, 2 owns o de rhydd, ac yn y blaen. Un o fanteision byw yng nghefn gwlad oedd bod modd cael rhywbeth yn slei bach gan rai o’r ffermwyr. Byddai fy nhad yn cael menyfres gan un ffermwr o Nant Ffrancon, ond ‘menyn pot’ yr arferid ei alw. Roedd hynny’n ddigon i’w brawd, John, wrthod ei fwyta gan mai’r unig ‘bot’ yr oedd o’n gyfarwydd ag o oedd yr un dan y gwely. Gan fod prinder menyfres, daethom yn

gyfarwydd â gweld ymwelwyr i’r tŷ yn dod â photel o lefrith gyda nhw ac yn ysgwyd y botel wrth sgwrsio er mwyn i’r hufen yn y llaeth droi’n fenyn.

Gorfodwyd pob fferm i dyfu cnydau gwair neu yd neu dyfu rwdins neu datws. Roedd hyn yn ddifrifol o anodd i ffermydd fel Fferm y Gerlan oherwydd bod eu caeau ar lethrau serth. Er hynny, mae gennyf gof o Evan Evans, ‘Gerlan Farm’, yn cerdded y caeau gan daflu had ag un llaw a’r llall gyda sach o amgylch ei ganol, gan ffurfio golygfa debyg i’r hyn a welais mewn llyfrau Beiblaidd. Mawr oedd y cyffro ymysg y plant pan oedd y cnwd yd wedi tyfu a phan oedd y dyrnwr yn dod i fyny i ‘Gerlan Farm’.

Gan fod fy nhad yn dod o deulu mawr, cymharol dlawd, roedd wedi arfer pysgota er mwyn rhoi bwyd ar y bwrdd. Wedi gorffen gweithio ar b’nawn Sadyrnau ei arfer oedd ei throi hi am Lyn Idwal a byddai’r pysgod a ddaliai yn frecwast inni fore Sul. Roedd Ashton Price Davies, ein cigydd ym Methesda, yn ceisio bod yn garedig wrth ei gwsmeriaid ond costiodd hyn yn ddrud iddo un tro, gan iddo gael ei ddal yn lladd bustach ei hun yn lle mynd â fo i’r lladd-dy i’w fesur yn swyddogol.

Un peth oedd yn lliniaru’r prinder oedd y parseli oedd yn dod gan berthnasau fy rhieni oedd wedi ymfudo i America flynyddoedd ynghynt. Roedd gweld y dyn post yn cyrraedd gyda pharsel arall yn cynhyrfu’r teulu i gyd. Roedd ei agor yn dod ag oglau hyfryd arbennig ac yn ein paratoi am y danteithion o dda-da oedd yn aml ar waelod y bocs. Y prif gynnwys oedd dillad ail-law, ac roedd croeso i’r rheini pan oedd prinder mawr yma, gan fod mam yn gallu eu haddasu ar gyfer ein teulu. Un ‘dilledyn’ na ellid ei addasu oedd y teis gwddw oedd yn y parsel. Pethau lliwgar erchyll oedd y rheiny fel y rhai gâi eu gwisgo yn y ffilmiau *gangsters* oedd i’w gweld yn y sinema a fodolai yn y farchnad ym Methesda. Pan anfonid wyau Pasg i ni, hir oedd yr aros tan Sul y Pasg cyn eu hagog. Ond mawr oedd y siom, a’r oglau drwg, a ddeuai wrth i ni eu hagog gan na wyddem am arfer yr Americanwyr o ferwi wyau a’u paentio gyda phatrymau ar gyfer y Pasg. Wedi’r siwrne hir ar long ar draws môr yr Iwerydd, a’r aros am i’r Pasg ddod, roedd y wyau wedi hen droi’n bwdwr drewllyd.



### Llyfr Dogni Bwyd o’r Ail Ryfel Byd

**Roedd dogni wythnosol y bobl yn caniatáu iddynt gael 1 wy, 2 owns o de a menyfres, 1 owns o gaws, 8 owns o siwgr, 4 owns o gig moch a 4 owns o siwgr.**



# Caerhun a Glasinfryn

**Dymuniadau Gorau**  
Pob dymuniad da i Eva Jones, Sŵn y Gwynt, Waen Wen, sydd wedi torri ei harddwrn. Hefyd i Mary V Williams, 10 Bro Infryn sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Rydyn ni i gyd yn cofio atat ti Mary.

**Y Gwennoliaid Duon**  
Er i Mair hysbysebu fod Ben Stammers o'r N.W.W.T. yn dod i'r ganolfan nos Fercher, Mehefin 13 i sôn am y Gwennoliaid Duon (Swifts), siomedig oedd yr ymateb ac ychydig ddaeth i wrando ar ei sgwrs ddiddorol. Cawsom ni - aelodau'r cylch noson addysgiadol yn ei gwmni difyr. Mae wedi bod yn astudio'r gwennoliaid ers tro ac yn gweithio ar brosiect i ddarganfod mwy amdanynt. Dywedodd bod y tywydd oer eleni wedi golygu bod yr adar rhyfeddol hyn wedi bod yn hwyrach nag arfer yn cyrraedd Prydain o Dde Affrica.  
Rhyfeddol yw deall fod yr adar unigryw yma yn gallu

hedfan ar ôl gadael y nyth am 2 neu 3 blynedd heb gyffwrdd daear o gwbl! Arferant nythu mewn waliau neu unrhyw dwll eitha' tywyll a hen adeiladau yw eu hoff ddewis.  
Yn ystod y nos byddant yn hedfan tua 10,000 mil o droedfeddi i'r awyr i fwydo. Wrth hedfan byddant yn bwydo, yfed a chysgu ac er mwyn cysgu mae rhan o'r ymennydd yn gorffwys - gwyh ynte?  
Gydol eu bywyd byddant yn hedfan tua 4 miliwn o filltiroedd ac yn byw o ddeutu 20 mlynedd.- onid ydy byd natur yn anhygoel? Cafwyd noson arbennig yng nghwmni Ben Stammers ac mae Ben sydd wedi dysgu Cymraeg yn rhugl ac yn llawn brwdfrydedd am y gwaith mae'n wneud.  
Paratowyd paned gan Jean, Margaret a Kath a diolchwyd i Ben gan Glenys.  
Byddwn ymweld ag Eglwys Gwenllwyfo mis nesaf ac yna'n mynd am swper i 'Dafarn y Bae', Traeth Coch.

## MODURON PANDY Cyf.

**MOT Diesel a Chatalydd**  
**Atgyweirio MOT**  
**Gwasanaethu Cerbydau**  
**Cydbwysu Teiars**  
**Batris**  
**Tracio**

**Tregarth, Bangor,**  
**Gwynedd LL57 4AY**

**01248 600619**

**moduronpandy@yahoo.com**  
**www.moduronpandymotors.co.uk**

**UNIPART** **CAR CARE CENTRE**



**Manylion Cyswllt**  
**Cynghorwyr Sir**  
**Dyffryn Ogwen**

**Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn**  
cyngorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

**Tregarth, Mynydd Llandygái**  
cyngorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

**Bethesda**  
cyngorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

**Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes**  
cyngorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

**@CynghorwyrDyffrynOgwen** **@PlaidCymruOgwen**

## Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



### Faciwîs

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd bygythiadau'r bomiau a ollyngwyd gan awyrennau'r Almaenwyr yn creu arswyd i drigolion trefi mawrion yn Ynysoedd Prydain. Clywsom lawer o sôn am y *blitz* yn Llundain a'r difrod a achoswyd yno a chlywsom hefyd am yr ymosodiad ar Abertawe a mannau eraill yng Nghymru. Cofiw'n yr un pryd fel y byddai awyrennau'r gelyn yn hedfan dros ein hardal ni wrth anelu am Lerpwl i ollwng eu gwae ar drigolion y ddinas honno. Wrth ddychwelyd dros Ddyffryn Ogwen, byddent yn cael gwared ag unrhyw fomiau nad oeddent wedi eu gollwng ar Lerpwl er mwyn ysgafnhau eu hawyrennau ar eu taith yn ôl 'adref'. Ar Ebrill 30, 1940, syrthiodd bomiau'r Almaenwyr yng ngyffiniau Eglwys Glanogwen a Neuadd yr Eglwys ond nid achoswyd unrhyw ddifrod i'r adeiladau. Yna, ddydd Mawrth, Medi 21 yr un flwyddyn, cafodd Mrs Davies, Llwyn Derw, Rachub, ei lladd, yn 60 mlwydd oed.  
Er i rai bomiau gael eu gollwng mewn mannau eraill yn Nyffryn Ogwen, roedd rhai o drigolion Lerpwl yn ddigon parod i'w plant gael lloches yma. Yn *Y Diwyd Fugail*, y llyfr diddorol am ei thad, Y Parchedig Thomas Arthur Jones, a'r helynt a gododd ynghylch y faciwîs, ysgrifennodd Marion Arthur Jones:

... daeth tri chant o blant i Fethesda ... tua dechrau mis Medi. 1939 ... 220 ohonynt yn blant o ysgol gynradd Harrison Jones ... llawer ohonynt yn ddiymgeledd ac yn resynus iawn eu cyflwr, heb fawr o ddillad amdanynt nac esgidiau am eu traed. Dyna lle'r oeddynt yn y Neuadd leol yn llawn ofn a hiraeth mewn ardal hollol wahanol i Lerpwl a heb fedru deall yr un gair o Gymraeg. Roedd arnynt angen lloches, gofal a charedigrwydd a tho uwch eu pennau. Ond os tlawd a difreintiedig eu cefndir hwy yn Sgotland Road, Lerpwl, go brin y gellid dweud bod trigolion Bethesda yn graig o arian ond bu'r merched lleol, gan gynnwys mam, a oedd ymhell o fod yn giamstar efo nodwydd ddur, yn ailwampio hen siwtiau a chotiau i geisio ail-ddilladu'r plant cyn y gaeaf. Daeth dwy eneth fach ddeg oed adref gyda 'nhad i'n tŷ ni ond bu'n sobor o anodd gwneud lle i'r gweddill yng nghartrefi bychain y chwarelwyr lle'r oedd tyaid o blant yn barod, efallai.

Un o'r teuluoedd eraill a roddodd gartref i ffoadur bach o Lerpwl oedd Mr a Mrs Tom Roberts, Adwy'r Nant, rhieni Vincent, un o'm cyfeillion gorau o gyfnod ein plentyndod. Mae Vince, a'i briod, Carole, yn byw ger Casnewydd y dyddiau hyn ac un noson, yn ystod ein sgysiaau ffôn cyson, soniodd Vince fod ganddo lythyr diddorol (ond heb ddyddiad arno) oddi wrth Mrs Richards, mam yr hogyn bach a ddaeth i rannu eu haelwyd nhw yn ystod y Rhyfel. Ei chyfeiriad oedd 8 Stand St., Lerpwl 7:  
  
After receiving Harold's letter, a load has been taken off my mind. I know now that he is in safe hands. I don't think he will cause you any trouble. We at home have been hearing some terrible tales that the children have been sleeping in barns and empty houses, so you could imagine how we felt. I hope to be coming up on Sunday to see him, but please don't tell him in case I can't manage it because he will be disappointed. So thank you again from the bottom of my heart for the way you took my son in and treated him like one of your own.



Bu cynifer o bethau ymlaen yn Nyffryn Ogwen yn ystod y mis a aeth heibio fel ei bod wedi bod yn anodd cael digon o le i'w cynnwys yn y rhifyn hwn o Lais Ogwan. Cynhaliwyd Sioe Dyffryn Ogwen ar y Cae Rygbi, Noson Mike Peters at gancr ar safle'r Wifren Wib a'r Bwrlwm Bro ar gaeau Ysgol Dyffryn Ogwen.

Bu'r sioe amaethyddol ymlaen yn rhy hwyr i ddal rhifyn Mehefin o'r Llais ac felly dyma geisio gwneud iawn am hynny trwy gynnwys ychydig o luniau o'r sioe yn yr atodiad arbennig yma. Diolch i Neville Hughes am y lluniau.

Elan Dafydd Morris  
oedd yn fuddugol  
gyda'r het bapur a'r  
teisennau sinsir



Cneifio yn y  
dull traddodiadol  
gyda gwellaif



# CIPOLWG O SIOE DYFFRYN OGWEN



Jennifer  
Roberts,  
Glanogwen,  
enillydd cwpan  
a sawl gwobr  
arall



Un o'r ceffylau gwych  
oedd yn cystadlu



Beirniadu yn adran y defaid





**Wynne ap Iorwerth,  
Mynydd Llandygai,  
enillydd adran yr  
ardd lysiau**



**Mali Burgess  
Williams wedi  
llwyddo yn yr  
adran Arlunio**



**Renee Taylor,  
Pant; 3ydd am  
dorth o fara**



**Nigel Beidas,  
Tregarth wedi  
profi llwyddiant  
yn yr adran  
Ffotograffiaeth**



**Lois Nottingham,  
enillydd y darian  
am addurno**



**Meleri Parri, Gerlan  
1af am wneud  
fflapjacs a Mared  
Morris- 1af am  
wneud myffins**



**Lois Angharad  
Morris gafodd  
wobr gyda'i  
chrwban**



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),  
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192  
Angharad Williams,  
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Cydymdeimlad

Daeth profedigaeth i ran Gwyneth Aston a’r teulu, 13 Maes Ogwen yn ddiweddar pan fu farw Ralph Aston, gwr Gwyneth a thad Gerald a Karen a thaid annwyl Cara. Cydymdeimlwn fel ardal a hwy yn eu profedigaeth.

Clwb Cant Canolfan Tregarth

17, Bessie Buckley - £15; 41, Goronwy Roberts- £10; 51, Peter Roberts - £5.

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Beca Roberts, Cae’r Wern , ar ei llwyddiant ysgubol yn ennill Ysgoloriaeth er cof am y diweddar Geraint George yn Eisteddfod yr Urdd eleni a’r Gwaith wedi’i seilio ar ei hymchwil i faterion amgylcheddol.

Profedigaethau

Bu colledion niferus yn yr ardal ar ddiwedd Mis Mai a thrwy gydol Mehefin a chychwyn Mis Gorffennaf. Rydym yn cydymdeimlo gyda chi i gyd fel teuluoedd ac yn sylweddoli fod colledion o’r fath yn dod a llawer o dristwch i’r teulu ac i’r ardal hefyd. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Ar Fai 28 bu farw Islwyn Morris, 49 Ffordd Tanrhiw yn Ysbyty Gwynedd, priod y diweddar Eirlys, tad David a thaid Noah.

Bu farw Albert Morris, Hafod, Dob ac yntau’n 81 mlwydd oed ar Fehefin 3. Roedd Albert yn briod gyda’r diweddar Carol ac yn dad i Amanda, Wendy a Jonathan, yn daid i Oliver, Toby, Trystan, Benjamin ac Emily ac yn frawd i Cyril a Dewi.

Brawychwyd yr ardal pan ddaeth y newydd am farwolaeth Ralph Henry Aston, 13 Maes Ogwen ar Fehefin 21 yn Ysbyty Gwynedd.

Gedy ei briod Gwyneth, ei fab Gerald, ei wyres Cara, ei frawd Jimmy a’i chwaer Patricia.

Cydymdeimlad

Daeth profedigaeth i deulu Pant Têg gyda marwolaeth mam Catrin, sef Helen Ogwen a Doyle ar Fehefin 7. Cydymdeimlwn gyda Catrin a Brian a’r plant Ioan, Elin a Cerwyn a’r teulu cyfan.

Yn dawel, ar Fehefin 25 yn Ysbyty Glan Clwyd bu farw Beca Cerys George o Hen Golwyn, merch 12 oed Ceri a Greg George, chwaer Jac ac wyres i Maud Griffiths, Gilfach, Dob. Mae ein meddyliau ni i gyd fel ardal wedi bod hefo chi yn ystod y dyddiau diwethaf yma ac anfonwn ein cofion atoch fel teulu bach.

Profedigaeth

Anfonwn ein cydymdeimlad fel ardal gyda Dr Cedric Davies, ei blant Catrin a Gareth, bellach yn byw yng Nghaerdydd yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain , sef Mrs Ray Davies. Arferai’r teulu fyw yn 36 Tal y Cae Tregarth. Cofion atoch

Capel Shiloh, Tregarth

Gwellhad llwyr a buan i’n horganydd yma yn Shiloh, sef Wyn Williams, Tyddyn Dicwm sydd wedi cael penguin newydd yn ysbyty Gobowen ar ddiwedd Mis Mehefin. Da oedd ei weld yn dychwelyd at yr organ o fewn chydig dros wythnos i gael y llawdriniaeth. Diolch Wyn !

Gwasanaethau yn Shiloh

Am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol Gorffennaf 15: Ellie Jones, Coed y Parc Gorffennaf 22: Gwynfor Williams, Caernarfon Gorffennaf 29: Trefniant Lleol Dim Gwasanaethau ym Mis Awst Medi 2: Richard Gillion Medi 9: Gwynfor Williams, Caernarfon Medi 16: Dafydd Hughes, Caernarfon Medi 23: Glyn Owen , Llanwnda Medi 30: Dr Jennie Hurd.

Profedigaeth

Daeth profedigaeth i ran Valerie Ellis Jones pan fu farw gŵr i gyfneither Val sef Ralph Aston, Maes Ogwen. Cydymdeimlwn gyda’r holl deulu.

Nain a Taid

Llongyfarchiadau i Gwenda a Glyn Davies, Bodiwan, Llanfairpwll ar ddod yn Nain a Taid i ferch fach eu mab Siôn Glyn a’ibriod yn Gerlan a chwaer fach i Mali Non.

Drws Agored

Cofiwch fod croeso, cwmni , paned a sgwrs yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 1 12 o’r gloch. Croeso i bawb.

Diolch

Dymuna Gwyneth Owen, Coedlys, ddiolch o galon i’r bonheddwyr aeth â phwrs oedd hi wedi ei golli i fanc Nat West ar Stryd Fawr, Bangor. Ni adawodd ei enw a buasai Gwyneth wrth ei bodd yn cael gwybod pwy oedd er mwyn iddi gael diolch iddo’n bersonol. Diolch yn fawr iawn iddo.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Daeth y tymor i ben gyda noson fendigedig o haf yng nghartref yr ysgrifennydd , Anwen Griffiths, Cysgod y Parc, Sling. Daeth nifer dda o’r aelodau draw i fwynhau sgwrsio yn yr ardd a lluniaeth o deisennau cartref o waith Jên Temple Morris, Tan Garth, ynghyd â mefus, mafon a llymaid bach o Proseco.! Diolchwyd i bawb am ddod i’r Gangen ar hyd y flwyddyn ac roedd yn ardderchog gweld cynnydd yn yr aelodaeth eleni gyda dros 40 wedi ymaelodi a rhai ohonynt yn aelodau ifanc newydd sbon. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth.

Bydd y Gangen yn ailgychwyn ar Fedi 3 yn Festri Capel Shiloh am 7.30 o’r gloch.

Eglwys y Santes Fair, Tregarth  
Gwasanaethau

Gorffennaf  
22 Cymun Bendigaid  
29 Dim gwasanaeth – ymuno ag Eglwys Sant Tegai am 9 o’r gloch y bore.

Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon



CYMORTHFEYDD  
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a’r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
(01286) 672076  
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

STEPHEN JONES  
TREFNWR  
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA  
GWASANAETH PERSONOL  
PEDAIR AWR AR HUGAIN  
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976  
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



Awst

5 Boreol Weddi

12 Cymun Bendigaidd

19 Boreol Weddi

Mae pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30 y bore. Byddwn yn ymuno ag Eglwys Sant Tegai ar Ddydd Sul Gorffennaf 29.

Bedydd

Ar Ddydd Sul, Mehefin 10fed bedyddiwyd Poppy Harriet a Neli Wyn. Mae Poppy a Neli yn gyfnitherod i’w gilydd gyda Poppy yn ferch i Sian a Chris Hodson a Neli yn ferch i Nia a Gary Page. Hefyd maent yn wyresau i Rhian a Tegryd Hughes a chroesawn y ddwy fach i deulu’r Eglwys.

Mae’r te bach nesaf ar Ddydd Mercher, Gorffennaf 25 am 2 o’r gloch y p’nawn.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ar ddydd Mercher, 20 Mehefin, trefnodd Glyn a Dorothy Hughes, Llanfairpwll, ‘Ddiwrnod Golff’ yn Henllys. Cafwyd diwrnod arbennig o dda gydag elw o dros £2,300.00. Mae ein diolch yn fawr iawn i Glyn a Dorothy.

Ar ddydd Llun, 25 Mehefin, cynhaliwyd ‘Diwrnod Agored’ yn 29 Ffordd Ffrydlas, Bethesda, cartref Joe ac Eira Hughes. Cafwyd diwrnod braf a phoeth - a hynod lwyddiannus, gyda llu o gefnogwyr yn manteisio ar y cyfle i fwynhau paned a sgon!

Dymuna Eira a Joe ddiolch yn fawr iawn am y gefnogaeth ar y diwrnod. Diolch am y rhoddion o bob math, yn arian, gwobrau raffl a nwyddau ar gyfer y byrddau gwerthu. Diolch i Mrs. Arfona Edwards am y blanced hardd ar gyfer y sgwâr lwcus, a aeth i gartref ym Mryn Caseg. Diolch hefyd i Lester am ei phlanced hardd hithau ar gyfer y raffl. Diolch o galon i’r rhai fu’n helpu ar y diwrnod, sef Gwen, Helen, Gwenda, Ann, Glenys, Angharad, Wendy a Ron. Roedd elw’r diwrnod yn £1,800.00. Diolch yn fawr i bawb.

Profedigaeth

Bu farw Adrian Griffiths, Tany ffordd, Tregarth , ac anfonwn ein cydymdeimlad gyda’i wraig Fiona , ei frawd a’i chwiorydd sef Tony, Pat a Helen a’r holl deulu yn eu profedigaeth.



**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

**Bethesda 600094**

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal “cut throat”)

# Anrhydedd i Frodor o’r Ardal

## gan David Alun Roberts

**Kevin Ffrancon Beattie M.B.E.**

Pleser o’r mwyaf yw cael cyhoeddi bod Mr Kevin Ffrancon Beattie, sydd yn Swyddog Gwarant yn y Llu Awyr Brenhinol yn Y Fali, Ynys Môn, ac o 69 Bro Syr Ifor, Tregarth, wedi ei wobrwyo gyda’r M.B.E. yn Rhestr Anrhydeddau Penblwydd y Frenhines, Mehefin 2018. Bydd Kevin yn derbyn y ffrwyth yn sgîl ei wasanaeth rhagorol er llês y Llu Awyr Brenhinol yn Y Fali a’r cymunedau lleol.

Mae Kevin wedi rhoi gwasanaeth di-dor a hybarch i’r Llu Awyr am dros 30 mlynedd, ers iddo ymrestru ym 1985, ac mae’r anrhydedd yma yn cael ei chyflwyno ar drothwy diwedd ei yrfa milwrol rheolaidd. Ers 2012 mae wedi bod yn cyflawni’r rôl fel Swyddog Gwarant yr Orsaf yn RAF Valley. Kevin yw’r cyntaf yn hanes yr orsaf sydd yn medru’r Gymraeg yn rhugl yn y swydd bwysig hon ac yn y rôl yma, mae wedi gallu sefydlu cysylltiadau eang a chadarn rhwng yr orsaf awyr a’r cymunedau lleol ym Môn, sydd wedi cryfhau’r berthynas rhwng y bywyd milwrol ciifiliaid yn yr ardal.

Fel y crybwyllir uchod mae Kevin a’i briod Wendy wedi ymgartrefu yn Nhregarth ers 2012, ac erbyn hyn, mae eu plant, Annya, Fiona a Robart wedi symud i’r ardal gyda’u partneriaid a’u plant. Mae Kevin a Wendy yn daid a nain hoffus i chwech o wyresau a wŷrion, sef

Nia a Jack, Joshua a Lyon, ac Ela a Mia, ac mae pawb yn hynod falch bod Dad / Taid wedi cael ei anrhydeddu am ei waith brwdfrydig dros y blynyddoedd.

Pob hwyl a llongyfarchiadau unwaith eto ar ennill anrhydedd mor arbennig, sydd yn dod â balchder i’n bro fach ni yn ardal Dyffryn Ogwen.

Ers iddo ymrestru yn 1985 mae wedi gwasanaethu mewn nifer o orsafoedd y llw awyr yn yr Alban, Lloegr a Chymru ac wedi bod dramor mewn tri man lle bu lluoedd arfog y DU yn ymladd gan gynnwys Irac.

Enillodd sawl gwobr a medal am ei wasanaeth yn ystod ei yrfa a phenllanw’r gwobrau hynny yw’r MBE a dderbyniodd gan y Tywysog Charles yn ddiweddar.



*Kevin Beattie yn ei lifrai swyddogol yn ystod gorymdaith*



*Afancod a chybiaid Bethesda’n brysur yn plannu blodau*

# Blwyddyn Brysur

Mae Afancod a Chybiaid Bethesda (Beaver a Cub Scouts) yn brysur yn cynnal cyfres o weithgareddau yn y gymuned. Dros gyfnod o flwyddyn, bydd y gweithgarwch, yn ôl Megan Taylor Rose, arweinydd “1<sup>st</sup> Bethesda Beaver Scout Group”, yn fodd i wella’r amgylchedd, i ddod â’r gymuned at ei gilydd ac i gryfhau Sgowntio yn y gymuned leol. Ariennir y prosiect gan Y Loteri Fawr, First Hydro a Grŵp Cynefin.

Yn ddiweddar, maent wedi

llunio a gwneud blwch pren i blannu blodau ynddo o flaen yr arwydd “Croeso i Bethesda” yng Nghae Gas. Maent yn ddiolchgar i gwmni C. L. Jones, Bethesda am roddi’r coed iddynt yn ddi-dâl. Mae’r Afancod hefyd, wedi plannu blodau o flaen Gorffwysfan ar y Stryd Fawr.

Os oes diddordeb gennych mewn helpu neu bod gennych brosiectau ar gyfer y grŵp, cysylltwch â Meg ar 1stbethesdabeavers@gmail.com

Ysgol Dyffryn Ogwen

**Cyflwyno Proffil Personol**

Ddydd Gwener, 23ain o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 cyn iddyn nhw adael yr ysgol. Roeddem wedi gobeithio cael cwmni cyn-ddisgybl, sef Mari Davies, yn y seremoni ond cafodd ei tharo'n wael y bore hwnnw. Hoffem ddiolch iddi am y negeseuon gwerthfawr iawn a basiodd ymlaen i ni i'w trosglwyddo i'r disgyblion a bydd pawb yn siŵr o gofio'r cyngor, "Gwnewch yr hyn mae arnoch ofn ei wneud". Mae'n draddodiad bellach i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod ac fel y gwelwch o'r lluniau roedd pawb yn hynod o smart! Cafwyd eitemau cerddorol gan Luned Elfyn Roberts o flwyddyn 9 ar y piano, deuawd gan Elen Wyn a Beca Nia, unawd gan Erin Griffiths ac unawd tiwba gan Morus Sanderson. Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.



Y disgyblion a fynychodd y cwrs Côt-a-thon'



Callum McKiernan Robins, Moli Jackson a Tomos Jones



Lauren Dignam, Steffan Davies a Sophie Davies

**Ymweliad Blwyddyn 6**

Bu 93 o ddisgyblion cynradd sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi yma am ddiwrnod. Cawsant gyfle i flasgu gwersi addysg gorfforol a mathemateg a chawsant gyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu ym mis Medi.

**Côt-a-thon**

Bu rhai o'r disgyblion yn mynychu'r 'Côt-a-thon - Cracio'r Côt' cyntaf yn Llanrwst. Roedd sawl ysgol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i geisio cwblhau gweithgareddau rhaglennu yn defnyddio'r 'Micro:Bit'.

**Zip World Roc**

Bu côr yr ysgol yn cymryd rhan yn y Roc Zip World gan ddiddanu'r gynulleidfa ar noson o gerddoriaeth ac adloniant yn Chwarel y Penrhyn ar ddydd Sadwrn, Mehefin 23.. Roedd yn ddiwrnod arbennig i godi arian ar gyfer elusen 'Cariad, Gobaith, Nerth' [Love, Hope, Strength] yr elusen gofal cancr a sefydlwyd gan y cerddor Cymreig Mike Peters. Cafodd y disgyblion y fraint o berfformio gyda Mike Peters, Côr y Penrhyn a phlant Ysgol Llanllechid a Phen Y Bryn.

**Cwmni'r Frân Wen ac ymweliad Karen Owen**

Mae hi wedi bod yn fis prysur yn Adran y Gymraeg! Cafodd blwyddyn 7 gyfle i fwynhau gweithdy ymwybyddiaeth iaith gyda Chwmni'r Frân Wen, bu'r disgyblion yn brysur iawn yn y gweithdy yn meddwl am eu hardal a'r hyn sy'n ei gwneud hi'n arbennig iddyn nhw.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r newyddiadurwraig a'r bardd Karen Owen wedi bod yn crwydro ysgolion uwchradd Gwynedd yn olrhain taith yr iaith Gymraeg. Treuliodd disgyblion blynedd 7,8 a 9 wers yng nghwmni Karen Owen yn

gwrando arni yn adrodd yr hanes pwysig hwn yn ei ffordd unigryw ei hun. Diolch iddi am alw acw i'n gweld ac i Carys Lake am drefnu'r daith bwysig hon.

**Ffair UCAS a Chynhadledd y Chweched – Prifysgol Bangor**

Cawsom ni, fel blwyddyn 12, gyfle i fynychu ffair prifysgolion UCAS yn ogystal â Chynhadledd Chweched Ddosbarth ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar. Roedd y digwyddiadau yn cael eu cynnal er mwyn hyrwyddo amrywiaeth o opsiynau ar gyfer addysg uwch wedi blwyddyn 13 a'r gyrfaoedd posib mewn gwahanol feysydd megis STEM, Astudiaethau Busnes a diwydiannau creadigol. Bu'n gyfle gwych iddyn nhw ddysgu am agweddau o fywyd yn y brifysgol nad oedden nhw wedi eu hystyried o'r blaen.

Hannah Morgan, Blwyddyn 12

**Ymweliad Blwyddyn 9 a 10 â Phrifysgol Bangor**

Bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 yn ffodus iawn i gael ymweld â Phrifysgol Bangor fel rhan o'r rhaglen 'dawn a chyfle'. Cawsant ymweld â'r Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, yr Ysgol Fusnes, Ysgol y Gyfraith, Ysgol y Gwyddorau Chwaraeon a Gerddi Botaneg Treborth. Diolch i'r Brifysgol am y croeso!

**Dymuno'n dda**

Bydd tri aelod o'r staff addysgu'n gadael ddiwedd y tymor – Mrs Delyth Humphreys, Mr Richard Hayes a Ms Rebeca Thomas. Fel



Pennaeth Cerdd, mae Mrs Humphreys wedi bod yn weithgar iawn yn paratoi partïon a chorau at eisteddfodau'r Urdd, Eisteddfod Dyffryn Ogwen a sawl achlysur arall dros y flwyddyn. Dymunir yn dda i'r tri a diolch iddynt am eu gwasanaeth i'r ysgol. Diolch hefyd i Mr Rhodri Evans a Miss Manon Hughes a fu'n gweithio fel cymorthyddion yn yr ysgol ac i Miss Angharad Jones sydd wedi bod yn gweithio fel llyfrgellydd a thechnegydd.

Athletau

Bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 7 i 10 yn cynrychioli'r ysgol ym mhencampwriaethau timau athletau NASUWT Arfon ddydd Mercher, 20fed o Fehefin. Roedd perfformiadau unigol arbennig yn ystod y diwrnod gyda thîm bechgyn blwyddyn 8 yn gorffen yn 1af

a genethod blwyddyn 9 a 10 yn gorffen yn 3ydd yn eu cystadlaethau. Aeth tîm bechgyn blwyddyn 8 ymlaen i gynrychioli ysgolion Arfon ddydd Mawrth y 26ain ym mhencampwriaethau Eryri. Perfformiodd y bechgyn yn wych gan orffen yn 5ed. Dyma aelodau'r tîm: Osian Davies, Noa Hughes, Iestyn Marlow, Ioan Emptage, Gethin Jones, Cai Parry, Aaron Carson, Dylan Hughes (blwyddyn 7).

Beicio Mynydd

Mae tîm beicio mynydd bechgyn blwyddyn 7 wedi ennill cystadleuaeth beicio mynydd ysgolion Arfon gan fynd ymlaen i gynrychioli Arfon yn y gystadleuaeth rhwng ysgolion Gwynedd. Daeth y tîm, sef Gruff Hughes, Louis Hadfield, Aron Bale ac Osian Moore yn ail yn y gystadleuaeth. Gwych!

JOHN ROBERTS



Paentiwr  
Papurwr  
Teilsiw

Symudol: 07747 628650  
Ffôn: 01248 600995

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,  
cloeau, bachau, twll llythyrau ac  
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge  
Llandegfan  
Ynys Môn  
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Mynydd  
Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd  
Llandygái ☎ 600744

Cofio Richard Gwilym Jones (DIC)  
gan Gwen Griffith

Yn ddiweddar, ar 15 Mai 2018, bu i ardal Mynydd Llandygai golli un o'i hoff gymeriadau. Yn dawel, bu farw Richard Gwilym Jones, neu Dic i'w ffrindiau a'i deulu.

Daeth Dic i fyw gyda'i nain, Elizabeth Roberts, yn fachgen ifanc iawn, yn dilyn marwolaeth ei daid, Richard, a fu farw wrth ymladd dros ei wlad yn 1917 ac a gladdwyd yn Ffrainc . Gadawodd ei fam a'i dad a'i frodyr a'i chwiorydd er mwyn cael y gofal gorau posib yma yn 23 Llwybr Main, yn dilyn salwch plentynod difrifol. Ei ddymuniad oedd cael aros yn nhŷ ei hen nain hyd ddiwedd ei oes. Gwnaed hyn yn bosib oherwydd gofal arbennig iawn ei ofalwyr yn dilyn marwolaeth ei fodryb Minnie yn y flwyddyn 2000. Bu ei chwaer, Margaret o Baris, yn ofalus ohono hefyd, ac mae'n gadael brawd, Alun yng Nghanada.

Wedi ymddeol ar ôl cyfnod o waith yn y Chwarel, 'roedd Dic yn hoff iawn o dynnu lluniau gyda'i gamera. Wrth gwrs, daeth staff Boots ym Mangor i'w adnabod yn dda! Pan fyddai'n siopa ym Mangor neu Bethesda, arferai Dic gario ei negeseuon ahref yn ei sach ddu ffyddlon.

Bydd colled fawr o beidio gweld y gŵr bonheddig, distaw, didrafferth yma o gwmpas , yn enwedig ar y bysus ac yn

y siopau! Roedd pawb yn gyfarwydd â'i weld yn ei 'sowester' coch, ei gôt law a'i wellingtons gwyrdd, boed haf neu aeaf. Hyd yn oed cyn y diwedd yn yr ysbty, 'roedd ei wellingtons yn barchus o dan y gwely.

Fydd bus stop Llwybr Main byth 'run peth!  
Bydd colled fawr ar dy ôl Dic! Gorffwys yn dawel! Hedd perffaith heddi!



Richard Gwilym Jones (Dic Mynydd)

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Donald Williams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Mair, cymar Donald. Rydym yn meddwl amdanoch!  
Hefyd, anfonwn ein cydymdeimlad at Margaret Oliver a'r teulu, o Arafon gynt, yn eu profedigaeth o golli gor-wyres ac wyres fach yn ddeuddeg oed. Rydych chi yn ein meddyliau ar adeg mor drist yn eich hanes!

**Llwyddiant**  
Llongyfarchiadau i William Turner, ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf mewn "Integrated Masters in Chemistry" ym Mhrifysgol Huddersfield. Mae William yn fab i Siân a John Turner, Llwyn Gwern, Ffordd Hermon.

**Eglwys St. Ann a St. Mair**  
Suliau: 1af a'r 3ydd    Boreol Weddi  
2ail a'r 4ydd    Cymun Boreol

Dechreuir y gwasanaethau am 9.30 y.b. Dangosir unrhyw newidiau yn yr amserlen ar yr hysbysfwrdd y tu allan i'r eglwys.  
Unwaith eto mae cwmni Mr. John Florence wedi bod yn tacluso'r fynwent. Buasem yn ddiolchgar pe bae pawb yn defnyddio'r binâu ysbwriel neu yn mynd ag unrhyw wastraff ahref i'w ail-gylchu. Buasem yn ddiolchgar am unrhyw gymorth i gadw'r fynwent yn daclus. Diolch!

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol  
Trydanwr cymwysedig gyda  
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda  
Gwynedd LL57 3ST  
Ffôn: 01248 602480  
07967 541870

# Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎ 01248 355336

Rhiwlas

*(Ymddiheurwn am fethu cyhoeddi'r eitemau hyn ym Mis Mehefin oherwydd problemau technegol)*

Ciosg Rhiwlas

Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen bellach wedi mabwysiadu'r ciosg er mwyn cael diffriblydd ynddo, ond nid oes drws ar y ciosg. Mae'r gost yn mynd i fod oddeutu £250. Tybed oes modd ystyried cael drws ar hwn pan fyddwn yn trafod cyllideb 2019/2020?

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth Brian Hughes yn 72 mlwydd oed, un o'r pentref yn wreiddiol, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Robert Hughes, Bro Rhiwen gynt. Roedd yn briod ag Elizabeth ac yn dad i Iorwerth a Raymond a thaid Sean a Maddy. Wedi priodi buont yn byw am gyfnod yn Rhiwlas, yna symud i Lasinfryn, Braichmelyn ac Elisabeth bellach yn Nhregarth. Bu'r angladd yn Eglwys Sant Cedol a'r Parch Christina MacCrea yn gwasanaethu. Cafwyd teyrnged iddo gan ei chwaer, Eileen a'i frawd yng nghyfraith, Richard Llwyd, ei frawd yng nghyfraith. Anfonwn rin cydymdeimlad atoch fel teulu.

Cydymdeimlwn hefyd â Dyfed a Caren Rowlands ac Osian Bron y Waun, yn eu profedigaeth annisgwyl. Yn frawychus o sydyn bu farw mam Dyfed yn Ysbyty Gwynedd. Roedd yn byw yn Llangristiolus, rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled drist o golli mam, mam ynghyfraith a nain.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Robert Jones. (Bob, 1 Rhes Penrhyn) a chydymdeimlwn â Valmai ei wraig ac ag Eilir a Rheon a'i frawd Trefor yn eu profedigaeth drist. Cafodd salwch blin ond roedd wedi brwydro'n galed. Roedd yn enedigol o'r Gerlan ond wedi colli ei fam aeth i fyw at ei nain yn Llandegfan. Roedd yn ddyn teulu ac wrth ei fodd yn yr ardd ac yn gallu troi'i law at sawl peth. Bu'r angladd yn yr amlosgfa gyda'r Parch Eric Jones yn gwasanaethu.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Tony a Glenys Jones, Bro y Waun yn eu profedigaeth o golli Glenda, chwaer yng nghyfraith i Glenys, gwraig Kenneth ei brawd. Roeddent yn byw yn Swydd Efrog. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

Wythnos Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad eleni, mae'n elusen yn cyflawni gwaith teilwng iawn ac fe gasglwyd £391.97, y swm

mwyaf ers sawl blwyddyn. Diolch arbennig i'r casglwyr, Dilys Parry, Rhian Evans-Hill, Steffan Job, Alison Roberts a Nia Jones. Mae angen mwy i gasglu felly beth am wirfoddoli'r flwyddyn nesaf?

Merched y Wawr

Y nein cyfarfod Mis Mai fe aethom i ymweld â'r Archifdy yng Nghaernarfon a chawsom ein tywys o amgylch y lle gan Lynn ac Anwen. Mae'r casgliadau sydd yno yn amrywiol iawn, gyda phapurau ystâd, dogfennau personol, cynlluniau a mapiau a lluniau o Wynedd hefyd. Mae'n debyg fod yr archif hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ystafell ddiddorol oedd yr Uned Gadwraeth sy'n gyfrifol am ddiogelu ac atgyweirio'r casgliadau a gedwir gan Wasanaeth Archifau Gwynedd.

Roedd pawb o'r farn inni gael noson ddiddorol ac addysgiadol. Diolch i Linda am drefnu'r ymweliad.

Clwb Rhiwen

Yn ein cyfarfod ar Mai 9 fed fe aethom i Benllech, Môn am de bach yn Te Bach. Ie, dyna enw'r caffi ble cawsom ein te. Yn anffodus dim ond grwpiau a gaiff fynd yno bellach. Cawsom wledd arbennig yno, pob dim yn gynnyrch cartref a digon ohono. Roedd awyrgylch croesawus a chartrefol yno. Diolch i Ddilys am wneud y trefniadau.

Cadw tŷ yn yr hen ddyddiau

Mair a Iona oedd yn gyfrifol am y cyfarfod yma. Cawsom sgwrs am yr hen ffordd o gadw tŷ, gan gynnwys y golchi a'r glanhau a diddorol oedd dod i ddeall fod rhai o'r dulliau yma yn cael eu defnyddio hyd heddiw. Beryl enillodd y raffl.

Rhieni Maeth

Penodwyd y pythefnos Mai 14 - 27 gan Gyngor Gwynedd i godi ymwybyddiaeth o fod yn rhieni neu ofalwyr maeth. Mae rhieni maeth yn cynnig cartref a chefnogaeth teulu i blant a phobl ifanc sydd mewn sefyllfa lle na all eu teulu eu hunain edrych ar eu holau am ba reswm bynnag. Y mae Graham a Carol Lumley, 'Iona', Waun Pentir wedi bod yn rhieni maeth ers 1984 a hyd yma wedi gofalu am 112 o blant a llawer ohonynt yn fabanod. Mae Carol yn eu cofio ac yn ddiweddar derbyniodd lythyr gan un ohonynt yn dweud ei fod yn astudio mathemateg yn y brifysgol. Fe gymerodd tua phedwar mis iddynt gymhwyso fel gofalwyr ac roeddent yn canmol y cymorth sydd ar gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bellach mae eu merch Emma yn awyddus i ddilyn ôl eu traed. Diolch i Carol a Graham am eu gwaith clodwiw ac os yw eu hanes wedi codi awydd ar unrhyw un i fod yn ofalwr maeth, yna cysylltwch â'r Cyngor gan fod prinder.

Medal Ddrama

Rydw i'n siŵr fod Cai a Lois, Bron y Waun yn ymfalchïo yn llwyddiant eu cyfnither, Mirain Alaw Jones a enillodd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd y diweddar Alun Williams, Bro Rhiwen gynt, yn frawd i'w hen daid ac yn sicr y mae Gwyneth, ei ferch hefyd yn falch o lwyddiant Mirain.

GORFFENNAF 2018

Merched y Wawr

I gloi y tymor roeddem yn dilyn y drefn arferol a mynd ar daith ddirgel gyda Derfel yn ein harwain, er er ein bod yn gwybod ble roedd pen y daith i fod . Cawsom gymaint o flas ar y daith a drefnodd inni y llynedd a rhaid oedd cael un eto eleni. Yn ei gyflwyniad inni soniodd am ei ddiddordeb yn y bysus ers pan yn ifanc iawn a'r brwdfrydedd wedi ei danio gan lyfr amdanynt a dderbyniodd gan y ddiweddar Elspeth Mitcheson Thema y daith oedd "Helen" a chyfeiriodd at stad Pentre Helen yn Neiniolen ac eglwys Santes Helen ym Mhenisarwaun. Mae'n debyg i dirfeddiannwr stad Coed Helen, Caernarfon, gyflwyno'r tir i drigolion yr ardal. Bellach mae maes carafannau mawr ar dir Coed Helen yng Nghaernarfon. Cawsom storiau am sawl lle cyn i ni gyrraedd Gwesty'r Afr, Glandwyfach ble cawsom swper blasus a phawb wedi'u plesio gyda'r bwyd. Diolch i Linda am wneud y trefniadau a diolch i Derfel am daith arall hynod o ddiddorol.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Dŵr yn codi ger Ty'r Ysgol,

Rhiwlas

Derbyniwyd llythyr gan Prifffyrdd Cyngor Gwynedd, sydd wedi bod yn edrych i'r broblem, ond nid oes dim yn amlwg. Efallai mai contractwyr Bt sydd wedi denu dŵr yno, ond ni ellid fod yn sicr o hynny, gan mai yn ôl Cyngor Gwynedd eu bod yn datgan fod yno broblem Natur Gwlyb o gwmpas y Tiroedd yn Rhiwlas. Felly maent yn bwriadu gosod pibellau o dan arwyneb y ffordd i arwain y dŵr i mewn i'r system traenio dŵr arwyneb bresennol, chan obeithio cwblwylhau y gwaith cyn y gaeaf nesaf.

*Tyllau ar lôn allt Rhiwlas* – Arolygwr ffyrdd am archwilio'r lôn a gweithredu fel bod angen.

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd clywed am sfarwolaeth Eirlys Lewis o Gaeredin ond a dreuliodd dipyn o'i phlentyndod yn Rhiwllas. Daeth y teulu yma i gadw'r siop a'r swyddfa bost yn y pentref ac roedd yn adnabyddus i bawb ohonom fel Eirlys Post. Mynychodd Ysgol Rhiwlas a Dyffryn Ogwen. Wedi



priodi â Meirion o Fynydd Llandegai symudodd y teulu i Gaeredin ac anfonwn ein cydymdeimlad ato ef a'r plant Gwen ac Arwel a'u teuluoedd, ei chwaer Eryl ac Owie, ei brawd ynghyfraith a'i brawd Gwyndaf.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Reece Thomas Halstead, 19 Bron y Waun ar dderbyn gradd dosbarth cyntaf ym Mhrifysgol Bangor mewn Swoleg ac y flwyddyn nesaf mae'n gobeithio dilyn cwrs Meistr yn y pwnc. Pob dymuniad da iti yn y dyfodol, mae'r teulu yn hynod falch o dy lwyddiant.

Ym Mis Medi fe fydd Caren Wyn Rowlands, Bron y Waun yn cychwyn fel Pennaeth mewn gofal yn Ysgol Glanadda a Choedmawr. Llongyfarchiadau i ti ar dy benodiad a phob dymuniad da i ti yn y swydd newydd.

Arosfan Bws

Mae'r arosfan bws hirddisgwyliedig wedi cyrraedd, diolch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am ei ariannu ac i'n cynghorwyr Hefin Williams a Rhian Evans-Hill am eu dyfalbarhad.

Brysiwch wella

Y mae Gwenda Edwards, Carfan wedi cael clun newydd yn Ysbyty Gwynedd, rhaid pwylllo rwan a dymuniadau da ii chi.

Rhai misoedd yn ôl cafodd Gwen Aron, Carreg y Gath glun newydd hefyd ac mae wedi gwella'n arbennig o dda, a bellach yn cerdded yn ddidrafferth. Fydd dim dal arni rwan!

Dymunwn yn dda hefyd i Carol Jones, Creigle a gafodd godwm yn yr ardd ac wedi torri ei garddwn, ein cofion atat tithau hefyd.

Mae eraill yn y pentref heb fod yn dda hefyd, anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atoch.

Diolchiadau

Fe hoffwn ar ran Elisabeth, Iorwerth, Raymond a'r teulu oll ddiolch i'r teulu estynedig, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atom yn ein profedigaeth o golli Brian, Diolch yn arbennig am y rhoddion er cof tuag at Bryn Seiont Newydd, gan Eileen Jones, Llangefni, Chwaer

Y mae Valmai Jones, Rhes Penrhyn, Eilir a Rheon yn diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth drist o golli gŵr a thad annwyl. Diolch hefyd i'r Parch Eric Jones am ei wasanaeth yn yr amlosgfa, i Dr W Munro am ei wasanaeth wrth yr organ ac i'r Ymgymmerwr Mr J P Turner am ei drefniadau trylwyr. Derbynwyd arian er cof ac fe'u cyflwynwyd i Ymchwil y Galon.

Grŵp Diffib Rhiwlas

Cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn ddiweddar a chawsom wybod fod y pwyllgor wedi penderfynu pa beiriant y maent yn awyddus i'w brynu. Mae sawl math ar gael ac maent wedi dewis yr un a argymellir gan Ambiwylans Cymru. Roedd Tomos Hughes yn bresennol ac fe ddangosodd inni, cam wrth gam sut mae'r peiriant yn gweithio. Diolch i'r pwyllgor am drefnu'r noson.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Mehefin 13: Fe aethom i draw i Fethesda gyda'r bwriad o eistedd yn y caffi yn edrych ar y Wifren Wib ond yn anffodus nid oedd ar gael y diwrnod hwnnw. Ta waeth am hynny cawsom orig ddifyr yn y caffi a phawb wedi mwynhau ac yn awyddus i fynd yno eto.

Cyfarfod Mehefin 27: Cawsom baned a chlonc yn y Neuadd a rho'r byd yn ei le. Jean a Francis oedd yn gyfrifol am y baned a Mair enillodd y raffl. Penderfynwyd i fynd i gaffi Pen Ceunant. Llanberis i gloi'r tymor.

Genod Rhiwlas

Mae criw o ferched, gynt o 'r pentref ac yn galw eu hunain yn Genod Rhiwlas yn cyfarfod yn eithaf rheolaidd ac y maent yn awyddus i gael aduniad yn y Neuadd i rhai a fagwyd yma neu a fynychodd Ysgol Waun. Mwy o fanylion i ddilyn.

MODURDY  
FFRYDLAS



Profion  
M.O.T.

Perchennog  
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda  
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO  
♦ TEIARS A BATRIS ♦  
GWASANAETH TORRI I LAWR  
NEU DDAMWAIN

 600723  
Ffacs: 605068

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,  
**Neville Hughes** 600853  
(nev\_hughes@btinternet.com)



Collwyd yn y  
Rhyfel Mawr

Ganrif i'r mis hwn

ER COF

W. J. WILLIAMS

Rifleman 552390  
2nd / 16th Bn  
London Regiment  
(Queen's Westminster Rifles)  
A fu farw 31 - 7 - 1918  
Yn 25 ml. Oed  
Mab William a Elizabeth Williams  
2 Tynymaes, Bethesda.  
Cabaret-Rouge, British Cemetery

J. O. JONES

TR/4.14934  
20th Bn.,  
Welsh Regiment  
A fu farw 25 - 7 - 1918  
Yn 19 ml. Oed  
Mab William a Mary Jones,  
6 Coetmor Tarrace, Bethesda.  
Mynwent Cyhoeddus Coetmor

(Diolch i Andre Lomozik am  
ei anfon i'r Llais)

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant  
gan Alison

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI  
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd  
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth  
Ambiwylans Gogledd Cymru

# Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

**Cyngerdd roc y Wifren Wib**  
Y Côr yn cymryd rhan mewn cyngerdd codi arian at gancr £25,000 yn cael ei godi  
Dros ddegawd yn ôl bellach darganfyddodd Mike Peters (prif leisydd y grŵp "Alarm") fod ganddo Lewcemia. Ers y darganfyddiad mae Mike, ynghyd â'i wraig Jules, sydd hefyd wedi dioddef triniaeth am gancr y fron, a chydychefnogaeth pobl o bob cwr o'r wlad, wedi cerdded yn flynyddol i gopa'r Wyddfa i gasglu arian at yr elusen a sefydlwyd gan y ddau, "Love, Hope and Strength." Yn dilyn y daith byddai cyngerdd yn cael ei gynnal yn Llanberis i oddeutu 700 o bobl.

Eleni daeth newid yn y drefn gyda Mike a'i deulu yn penderfynu dechrau'r daith yn swyddfa'r Wifren Wib, neu "Zip World" yma ym Methesda. Cerddodd dros 500 o bobl i Lyn Idwal gyda rhai yn mynd o'i amgylch cyn cerdded yn ôl i Chwarel y Penrhyn i gael eu diddanu gan gerddorion amrywiol, o Gymru a thu hwnt ac ymuno gyda thyrfa o dros 500 arall, l'r bwrlwm hwn y bu'r côr yn ffodus iawn o gael gwahoddiad i ganu, a hynny nid yn unig

ar ben ein hunain, ond gyda chôrau o blant ysgolion y fro, a chydach'r seren ei hun, Mike Peters. Fe ddysgodd y côr fersiynau Saesneg a Chymraeg o gân Mike, sef "Cariad, Gobaith a Nerth" ar gyfer y perfformiad. Yn dilyn ein perfformiad, a thra 'roedd aelodau'r côr yn dod oddi ar y llwyfan, fe gyhoeddodd arweinydd y noson, Gareth "Gaz Top" Jones, bod person yn dod i lawr y wifren Wib. Ar hynny dyma ddyn "stunt" proffesiynol, gyda mwg yn byrlymu o'r tu ôl iddo, yn dod lawr y wifren, cyn gollwng ei hun yn rhydd ac agor ei barasiwt ac wedyn yn gostwng ei hun yn ddiogel i'r llyn yn y twll chwarel cyn cael ei godi gan gwch. Fe rannodd y côr y llwyfan yn ystod y diwrnod gyda:

- The Storyville Mob**  
**Third Generation** (sydd yn cynnwys dau fab Mike Peters)
- Maffia Mr Huws** (da oedd eu gweld y band hwn yn ôl yn eu cynefin a chafwyd set wefreiddiol ganddynt)
- Band Pres Llarregub**  
**Mike Peters**  
Ac i orffen y noson cafwyd perfformiad gan y band enwog o'r 70au "**Slade**"



Karen Williams wrth ei bodd yn y cyngerdd a'r tywydd braf

Y teimlad ymysg y dorf, a'r trefnwyr, oedd bod y diwrnod wedi bod yn lwyddiant ysgubol, ac y bydd yr ŵyl yn dod yn ddigwyddiad blynyddol. Mae Côr y Penrhyn wedi cyflwyno ei ffi o £400 i'r elusen 'Cariad, Gobaith, Nerth'

**Ymweld â Norwy**  
Yn ystod ail wythnos Mis Mehefin bu'r côr ar ymweliad byr â Stavanger yn Norwy ac yno cafodd yr aelodau y fraint o ganu gyda band pres lleol. Roedd y dyrfa niferus ddaeth draw i wrando ar y perfformiad wedi eu plesio'n fawr gan y canu ac roedd llawer yn awyddus i weld ac i glywed mwy am Gôr y Penrhyn. Dywedodd Dafydd Jones Morris, cadeirydd y côr, fod y daith wedi bod yn flinedig ond yn wefreiddiol a bod tir newydd wedi ei dorri gyda'r ymweliad hwn i un o wledydd Llychlyn.

**Henllys a Llandudno**  
Ynghanol yr holl brysurdeb hwn mae gwaith arferol y côr o ddarparu adloniant i gynulleidfaoedd amrywiol yn dal i fynd yn ei flaen. Buom yn cynnal un o'n cyngerddau arferol yn Henllys ynghanol mis Mehefin a byddwn yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno am un arall o'r cyngerddau poblogaidd y mis hwn. Mae'r holl waith hwn yn rhywbeth i'w groesawu gan fod cynifer o gorau bach a mawr yn brin iawn o alwadau yn y byd sydd ohoni.

**Recordio CD newydd ac amrywiol alwadau**  
Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd aelodau'r cor yn defnyddio Castell y Penrhyn fel stiwdio recordio ar gyfer y CD newydd sydd ar y gweill. Mae neuadd fawr y castell yn meddu ar nodweddion acwstig tebyg i hen eglwys urddasol gan fod y waliau cerrig trwm a'r nenfwd uchel yn golygu fod yr effaith gaiff ei greu yn diasbedain yn bersain ac yn urddasol. Mae llawer o gydweithio rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r cor y dyddiau hyn gan i ni gymryd rhan mewn sawl perfformiad yn y castell gothig ei wedd.



Côr y Penrhyn ar y llwyfan gyda Mike Peters o'r 'Alarm'

**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**

Pob Math o Waliau Cerrig,  
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.  
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

**07770 900531**  
**01248 600282**  
jtemplemorris@btinternet.com

**Gareth Williams**  
**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**  
**1 Ffordd Garneddwen**  
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**  
**GWASANAETH DYDD A NOS**



# Croesair Llais Ogwan

## AR DRAWS

- 1 Edward bach ynghanol y coed.  
Gobeithio na chaiff y wialen (4)
- 3 Un ar ôl gŵr enwocaf Rhufain neu un  
coch i gofio (4)
- 7 Swnio fel nad oes llawer o amser i gael  
paned yn un o drefi de Lloegr (6)
- 8 Cynnyrch buddai a noe erstalwm (6)
- 9 Tŷn enwog “Mawr oedd Crist yn  
nhragwyddoldeb” (4,6)
- 11 Edrych yn llygadwrth (4)
- 12 “Ni ddaw i neb --- yn ôl” (*dihareb*) (3)
- 13 32°F neu 0°C (4)
- 14 ‘Un Nos Ola Leuad’ efallai (3,7)
- 17 Wrth ddifrodi fe’th andwyodd (6)
- 18 Mr. Ffowc Ellis o Leiflor (6)
- 19 8 Ar Draws sy’n dda arno (4)
- 20 Wedi digio a chwerwi (4)

## I LAWR

- 1 Brecwast hen ffasiwn (8)
- 2 Prosesu wisgi a gwirodydd eraill (7)
- 3 Pryderu (5)
- 4 Rhuthro’n ôl ar ormod o hast i weld  
cyngerdd Syr B. Terfel (4)
- 5 Gofidio a phendroni’n ddiangen am  
rhyw ddrwg a allai ddigwydd (3,8)
- 6 Cofnod o sut y dechreuodd pethau, yn y  
cyntaf un (4,7)
- 10 Gwyn Owen yn ffwndrus wedi cael  
brathiad gan wiber (8)
- 13 “----- Bywyd”, cyfrol o straeon gan  
Frehines Ein Llên (1929) (7)
- 15 Mae’r marchog yn 4 I Lawr yn arbenigwr  
yn y maes (5)
- 16 Diffrwyth a gwan (4)


## ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2018

**AR DRAWS:** 1 Bara, 5 Rhwyd, 7 Trysori,  
8 Cartrefi, 10 Wyau, 12 Help, 14 Diweddarau,  
16 Eiliadau, 17 Lisa, 18 Anno, 19 Cyfarfod,  
22 Anafwyd, 23Sychu, 24 Aros

**I LAWR:** 1 Broc, 2 Atat, 3 Hylendid, 4 Holi,  
5 Rhinweddol, 6 Dallu, 9 Atebion,  
11 Afrosgo, 13 Peilonau, 15 Waunfawr,  
18 Achos, 19 Craff, 20 RADA, 21 Dwys

Yr atebion i groesair Mehefin yn hynod  
gywir. Dim ond tri camgymeriad oedd yn  
rhwystr i sgôr perffaith. Cafwyd ‘Prifolau’ yn  
lle ‘Peilonau’ (13 I Lawr), ‘Cymendod’ yn lle  
‘Hylendid’ (3 I Lawr) a ‘Lasi’ yn hytrach na  
‘Lisa’ (17 Ar Draws).

Llongyfarchiadau am atebion cywir i’r  
canlynol : Angharad Watkins a Huw  
Pritchard, Caerdydd; Elizabeth Buckley,  
Dulcie Roberts, Rosemary Williams,  
Tregarth; Gareth William Jones, Bow  
Street;Dilys W. Griffith, Abergele; John  
H. Evans, Llanberis; Dilys Parry, Jean  
Vaughan Jones, Rhiwlas; Gwenda Roberts,



Rhosmeirch; Jean Hughes, Barbara Jones,  
Talybont; Iona Williams, Llanddulas;Emrys  
Griffiths, Rhosgadfan; David T. Hughes,  
Cyffordd Llandudno; Doris Shaw, Bangor;  
Bryn a Gwen Evans, Rita Bullock, Gaynor  
Elis-Williams, Barbara Owen, Laura a  
Marian Arman,Cath Boulting, Bethesda.  
Yr enw cyntaf o’r het i ennill y wobr oedd  
cynnig David T. Hughes, ‘Melysfan’, 33 Y  
Glyn,Cyffordd Llandudno, Sir Conwy LL31  
9HU. Llongyfarchiadau calonnog i chi.  
Rhaid aros hyd rifyn mis Medi o “Llais

Ogwan” i gael atebion a chanlyniadau  
croesair y mis yma. Diolch i chi am eich  
cefnogaeth i’r Croesair bob mis, gan  
obeithio y cewch seibiant dymunol dros  
weddill yr haf.  
Atebion erbyn 24 Awst, 2018 i ‘Croesair  
Gorffennaf/Awst’, Bron Eryri, 12  
Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57  
3PD.  
(*Gan fod mwy nag arfer o amser i chi anfon  
yr atebion y tro yma, peidiwch â gadael iddo  
fynd yn angof !*)

Atebion erbyn 24 Awst, 2018 i ‘Croesair Gorffennaf’  
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

# Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,  
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ  
angharadllwyd@hotmail.com

## Capel Carmel

Trefn y Gwasanaethau  
Gorffennaf 22: Oedfa. (5.00)  
Gorffennaf 29: Miss Nerys Jackson. (5.00)  
Awst 5, 12, 19: Uno yn Jerusalem (10.00yb a 5.00yp.)  
Awst 26: Gweinidog (5.00)  
Medi 02: Gweinidog (Cymun – 5.00)  
Medi 9: Parchg. Glenys Jones. (5.00)  
Medi 16: Parchg. Dylan Rhys Parry. (2.00)  
Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30 yb. (Ail-ddechrau ar 9 Medi.)  
Clwb dwylo Pysur, nos Wener am 6.30.  
(Ail-ddechrau ar 7 Medi.)  
Te Bach, dydd Llun, 25 Medi. 2.30 – 4.00.

Anfonwn ein cofion at yr holl aelodau sy’n sâl. Cydymdeimlwn â theulu Mignant, sef Lowri, Gareth, Martha, Elis a Begw yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl yng Nghaerdydd. Hefyd, cydymdeimlwn â Mrs. Margaret Bowen Rees a’r teulu, Ffordd Llanllechid.

Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Pysur  
‘Roedd y gweithgareddau yn ddifys ac amrywiol yn ystod mis Mehefin.  
Ar nos Wener aeth y bobol ifanc am dro i fyny allt Caellwyngrydd i’r mynydd gan droi i lawr heibio Tan y Bwlch, Cae’r Berth ac i Llan. Troi yn ein holau wedyn i Rachub ac i Ysgoldy Carmel i gael diod a rhywbeth i’w fwyta.

Ar un bore Sul bendigedig dyma benderfynu mynd â phlant yr Ysgol Sul am dro bach, gan gychwyn i fyny’r allt tua a Chae’r Groes ac ar hyd Ffordd Tan y Bwlch, heibio’r Becws, lle mae tad Morgan yn gweithio, ac yna galw heibio i dŷ Mrs. Betty Jones. Nid yw Anti Betty, fel mae’r plant yn ei galw, wedi bod yn dda yn ddiweddar, ac ‘roeddem yn falch o ddeall ei bod ychydig yn well. ‘Roedd hi wrth ei bodd o weld y plant gan gofio ei bod hithau wedi bod yn mynychu’r Ysgol Sul yng Ngharmel pan oedd yn blentyn – a’i phlant hi ei hun wedi hynny. Fe ganodd y plant ddau emyn iddi ac mi ‘roedd hithau yn ymuno efo nhw.



Mrs. Betty Jones efo’r plant lleiaf.

Tros y ffordd i dŷ Mrs. Betty Jones mae Mr. John Jones yn byw, sef taid Cadi a Mali. Fel ‘roedd hi’n digwydd’roedd Mr. Jones yn cael ei benblwydd. Canodd y plant y gân ‘Penblwydd Hapus’, ac ‘roedd yntau wrth ei fodd. Cafodd y plant fwynhau ei hunain yn y cae chwarae am ychydig cyn cerdded yn eu holau i’r Ysgol Sul.  
I gloi’r Ysgol Sul am yr haf cawsom drip i Sŵ Môr Môn. ‘Roedd hi’n fore braf iawn ac ‘roedd y plant yn mwynhau gweld pob math o bysgod lliwgar. Wedyn aeth y plant allan



Mr. John Jones a’r plant.

i chwarae yn yr haul braf a chael picnic cyn mynd i’r bws a chychwyn am adref.



Y plant lleiaf yn edrych ar y pysgod.

Fore Sadwrn ola’r mis’roedd y bobol ifanc wedi gobeithio mynd am dro i ben Moel Wnion, ond gan ei bod yn fore mor boeth mynd wnathom ni am dro i lawr Lôn Goed, dros bont Dolau Hirion a heibio i fwthyn Tai’n Coed, ac i lawr am y Rheithordy nes dod allan ar y Lôn Bost wrth ymyl Pont y Pandy. Troi wedyn am Dregarth ac i fyny Cerrig Llwydion, mynd drwy’r giât sydd ar ganol yr allt am y Twnnel Tywyll. ‘Doedd hi ddim yn dywyll yno chwaith gan fod golau trydan yno erbyn hyn, ond mi ‘roedd hi’n braf yn y fan honno ar ôl cerdded

# Llinos Môn Williams – Teyrnged

Dymuna Menai a Mark Lewis, Plas Hen, Llanddaniel, ddiolch yn ddiffuant i bawb a fu’n cydymdeimlo â hwy, yn dilyn marwolaeth eu hannwyl ferch, Llinos Môn Williams  
Mae gan Menai wreiddiau dwfn yn Nyffryn Ogwen, wedi ei magu yn Nhy’n Llan, Pant Glas, Bethesda, yn ferch i Richard a Sylvia Roberts, ac yn chwaer i Emyr a chwaer yng nghyfraith i Heulwen, Ystradawel.  
Bu farw Llinos yn ystod mis Mai yn 35 mlwydd oed. Ganwyd Llinos gydag

anawsterau iechyd difrifol, a chafodd ofal tyner a diffino gan Menai. Merch arbennig a mam arbennig - roedd y ddwy yn dîm da! Roedd Llinos yn mwynhau bywyd pan oedd ei hiechyd yn caniatáu, ac yn falch iawn o’i theulu, yn enwedig plant bach ei brawd, Carwyn a phlant ei chefnidryd, Wil a Dafydd.  
Roedd hi’n amyneddgar iawn, a phob tro pan fyddai rhywun yn holi am ei chyflwr, ei hateb fyddai “O dwi’n olew chi, a sut dach chi?”.  
Yn ystod ei hoes fer bu nifer

o drigolion Bethesda yn dda iawn efo Llinos. Roedden nhw’n ymholi yn aml am ei chyflwr ac yn cyfrannu’n ariannol yn gyson iddi. Diolch i chi am eich cymwynasau iddi dros y blynyddoedd!  
Mae’r diolchiadau am y cardiau, galwadau, ymweliadau a’r cyfraniadau ariannol, yn dilyn ymadawiad Llinos, yn dod o waelod calon. Diolch i bawb fu yn yr angladd!  
Roedd Llinos â diddordeb mewn pobol a chonsyrn am eraill bob amser. Yn y cywair

yma, gyda balchder, mae’n braf cael cyhoeddi fod swm o £2,200 wedi ei gasglu er cof amdani.  
Bwriedir rhannu’r arian rhwng Canolfan Niwrolegol Walton (£1000), Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd (£1,000) - dau sefydliad a roddodd ofal ardderchog a difesur i Llinos.  
Hefyd rhoddir £100 i Feddygfa Star, Gaerwen a £100 i Nyrsys yn y Gymuned Gaerwen. Diolch iddynt am eu gofal caredig am Llinos.  
Diolch i bawb!



yn y gwres! Wedi dod allan o'r twnnel aethom i fyny allt Bryn Bela yn ein holau i Rachub ! 'Roedd picnic wedi ei baratoi ar ein cyfer yn yr Ysgol Sul. Diolch yn fawr i Gerallt Hughes a Bryan Griffith am ein harwain yn ddiogel ar daith gerdded ardderchog.

"Am heulwen glir ac awel fwyn, i Ti, O Dad diolchwn!"

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid.**  
**Arddangosfa Luniau**

Cafwyd arddangosfa gwerth chweil, o luniau amrywiol, yn gysylltiedig âg ardal Rachub a Llanllechid, yn Ysgoldy Carmel yn ddiweddar. Daeth nifer fawr o bobol yno i fwynhau rhannu atgofion ac i gael sgwrs a phanad wrth edrych ar y lluniau. Diolch i bawb a ddaeth draw, ac i bawb a fu'n gweithio'n galed i wneud y cyfan yn ddigwyddiad mor llwyddiannus.

Roedd yr arddangosfa'n glo rhagorol i dymor o gyfarfodydd difyr, ac edrychwn ymlaen i gychwyn y tymor nesaf gyda Barry Jones [Archie] yn sgwrsio am y grŵp bendigedig o Rachub, - Celt. [Medi 26, 2018]

**Gwair**

Torrwyd gwair cae chwarae Rachub gan Gyngor Gwynedd wedi i'r cynghorydd cymunedol Pearl Evans gwyno. Hefyd, torrwyd gwaith ger mainc croesffordd mynwent Coetmor wedi i'r cynghorydd cymunedol Godfrey Northam gwyno.

**Siop Rachub**

Gresyn bod canolfan dosbarthu Blakemore yn Llandygai wedi cau. Mae hyn yn golygu y bydd gweithwyr siop Rachub yn gorfod teithio'n bellach i Gyffordd Llandudno i gael rhai o'i nwyddau, a chodi rhai prisiau o ganlyniad.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchwn Pearl Evans, Stryd Britannia ar gael ei hethol yn gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda am 2018-19. Dyma'r ail-dro iddi gael ei anrhydeddu.

**Clwb Llanllechid**

Dydd Mercher y 6ed o Fehefin aeth yr aelodau am de pawns i gaffi Hen Felin yn Abergwyngregyn. Cawsom groeso cynnes iawn gan Ayis a'r tîm ac roedd y te yn ardderchog a dewis da o frechdanau a chacennau a sgons a hufen ffres. Yn anffodus roedd amryw methu a dod oherwydd anhwylder a rhesymau eraill. Bydd y cyfarfod nesaf ar Orffennaf 4ydd.

Cau ffordd Hen Barc.

Bydd rhan o ffordd Hen Barc ar gau tan fis Awst, o lwybr Ty'n Ffridd i Lôn Newydd oherwydd gwaith treinio. Felly

bydd y ffordd ar gau am o leiaf pythefnos, os nad tair wythnos.

**Diolch**

Dymuna Dafydd Beech a'r teulu ddiolch yn fawr am bob caredigrwydd a chydymdeimlad ar ôl colli Mam, Mam yng nghyfraith a Nain annwyl iawn. Bydd hiraeth mawr ar ôl Ann Beech, Plas yn Iâl, Llandegla, a byddwn yn trysori ein hatgofion ohoni am byth.

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Lowri Evans, Llanllechid, ar golli tad a thaid annwyl.

Bu farw'r awdur a'r newyddiadurwr yr Athro Meic Stephens yn 79 oed.

Roedd yn gyfarwyddwr adran lenyddiaeth Cyngor y Celfyddydau am rai blynyddoedd, yn gyfrifol am sefydlu'r cylchgrawn Poetry Wales, ac yn athro mewn ysgrifennu Cymreig trwy gyfrwng y Saesneg ym Mhrifysgol Morgannwg. Roedd yn awdur nifer o lyfrau, ac yn olygydd Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru.

Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf i'r teulu oll.

**Cau ffordd Hen Barc**

Bydd rhan o ffordd Hen Barc ar gau tan fis Awst, o lwybr Ty'n Ffridd i Lôn Newydd oherwydd gwaith treinio. Felly bydd y ffordd ar gau am o leiaf pythefnos, os nad tair wythnos. Bydd hyn yn debygol o achosi problemau mawr gyda'r bysus yn enwedig, felly amynedd pia hi am sbel.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau calonnog i Gwion a Nia ,Tŷ Capel Bethel, Trevelin, Chubut, Patagonia ar enedigaeth merch fach - Celyn Mai - yn ysbyty Esquel, ar y 18fed o Fehefin. Mae nain a taid (Gruff a Nia, Yr Hen Bwl, Llanllechid) a'r teulu i gyd wedi gwirioni'n lan ac yn edrych ymlaen yn arw i'w hymweliad cyntaf â Chymru dros y Nadolig. Diolch o galon i bawb yn yr ysbyty ac i'r holl ffrindiau sydd ganddynt yn y Wladfa - pawb wedi bod yn gwau yn ddi-stop! Diolch hefyd i Alejandro ac Erica am roi benthyg eu car iddynt!"

**Bwrlwm Haf**

Eleni, mae Bwrlwm Haf wedi atgyfodi ym Methesda, y cyntaf ers dros 30 mlynedd. Ddydd Sadwrn y 7fed o Fehefin cafwyd diwrnod arbennig o gystadlu ar gaeau Ysgol Dyffryn Ogwen rhwng ardaloedd y dyffryn, ond Rachub/Llanllechid a Tal y Bont ddaeth i'r brig, o dan arweiniad capteiniaid o fri - Michael Williams a Iona Robertson. Diolch i bawb fu'n trefnu, ymlaen i 2019!

**CAFFI COED Y BRENIN**  
1 Rhes Buddug, Bethesda  
**Ffôn: 01248 602550**  
[karena@agoriad.org.uk](mailto:karena@agoriad.org.uk)

**Bwyd cartref blasus**  
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*  
**Cinio arbennig bob dydd iau**  
**Bwyd i'w gario allan**  
**Gwasanaeth arlwyro ar gyfer**  
**partion o bob math -**  
**plant, pen-blwydd ac ati**  
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*  
**Cacennau ar gyfer pob achlysur**  
**e.e. priodas neu ben-blwydd**  
**Prisiau rhesymol**

**BISTRO'R BRENIN**  
**(Bwyty Trwyddedig)**  
Rydym yn croesawu partion  
o bob math – dathlu pen-blwydd  
ac achlysuron arbennig eraill.  
Beth am eich Parti Nadolig?

**Gadewch i**  
**Londri Coed y Brenin**  
wneud eich golchi

**SIOP**  
**OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)

[partneriaeth@ogwen.org](mailto:partneriaeth@ogwen.org)  
**01248 208 485**

**Owen's** Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd  
Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475  
[www.owenswales.co.uk](http://www.owenswales.co.uk)

# gair neu ddau

John Pritchard

## Byth Eto

Os cawsoch lond bol ar Gwpan y Byd, mae’n bosibl eich bod wedi dilyn Wimbledon dros y pythefnos diwethaf. Ac os ydych chi’n mwynhau’r tenis, tybed ydych chi’n cofio un gêm arbennig a chwaraewyd nôl yn 2010.


“Ddigwyddith hyn byth eto.” Dyna farn y sylwebyddion ar ddiwedd gêm dennis rhwng John Isner a Nicolas Mahut yn Wimbledon y flwyddyn honno. Roedd sgôr o 70 i 68 yn y set olaf yn gwbl syfrdanol, ac fe barodd y gêm 11 awr a 5 munud. Mor arbennig ac anarferol yr ornest nes i’r trefnwyr gyflwyno gwobrau arbennig i’r ddau chwaraewr. Dyna’r tro cyntaf mae’n debyg i rywun a gollodd yn y rownd gyntaf fynd adref â gwobr yn ei law.

Y mae’n bosibl, wrth gwrs, na welir gêm debyg iddi eto. Ac eto, pwy a ŵyr beth a ddigwydd ymhen blynnyddoedd. Ym myd chwaraeon, mae yna bethau rhyfedd yn digwydd, ac mae pob ‘record’ yn cael ei thorri yn y diwedd. Mae’n debyg mai’r cwbl y gellir ei ddweud yw mai dyma’r gêm hwyaf ‘hyd yma’, a bod y sgôr uchel yn unigryw ‘ar hyn o bryd’. Ac eto, mae’n anodd iawn dychmygu gêm arall yn para mor hir â hon.

Y mae ‘unigryw’ a ‘byth eto’ yn ddau beth y gallwn eu dweud i sicrwydd am yr hyn a ddigwyddodd ar Galfaria. Fe barodd yr ornest honno oriau hefyd, ac fe olygodd ymdrech a phoen mawr. Roedd hi’n frwydr ffyrnig. Ar y naill law roedd drygioni a Satan yn gwneud eu gorau i gadw gafael ar y ddynoliaeth, a’i thynnu i ddistryw tragwyddol. Ar yr ochr arall roedd Iesu’n ymdrech i ddryllio’r afael honno a dwyn ei bobl i’r bywyd tragwyddol.

Brwydr unig oedd hi. Gwatwarwyr, ac nid cefnogwyr, a gafodd ein pencampwr mawr ni. Ond wedi’r brwydro hir, roedd yna fuddugwr. A’r un a fu farw oedd hwnnw. Ond y rhyfeddod, wrth gwrs, oedd mai wrth farw yr enillodd y dydd. Roedd wedi cymryd euogrwydd byd ar ei gefn ei hun, ac wedi dwyn y gosb am yr euogrwydd hwnnw. Wrth farw yn lle pechaduriaid fel ni, gallai weiddi “Gorffennwyd”, gan wybod ei fod wedi ein rhyddhau o afael drygioni a Satan a’r condemniad oedd yn ein hwynebu.

Welwyd y fath beth cynt na wedyn. A gallwn ddweud i sicrwydd na ddigwyddith hyn byth eto. Roedd un waith yn ddigon i ddelio â phechod pob un a phob oes. Roedd un aberth yn ddigon i ryddhau pawb sy’n barod i ymddiried yn Iesu a’i waith. Ddaw ef na neb arall i ailadrodd y weithred achubol hon. Does dim angen hynny, gan fod yr aberth hon dros bobl pob gwlad a phob cenhedlaeth. Na, ddigwyddith hyn byth eto.



## Marchnad Ogwen

Wel am ddiwrnod braf yn Sioe Dyffryn Ogwen! Y tywydd wedi bod yn ddelfrydol a phawb o stondinwyr Marchnad Ogwen wedi mwynhau yn arw. Rhyw deimlad cymunedol braf - sgwrs gyda hwn a llall a rhoi’r byd yn ei le! Diolch i chi oll am eich cefnogaeth ac i bwyllgor y Sioe am eu cydweithrediad unwaith eto.

Mi fyddwn yn ôl ‘adref’ yn Neuadd Ogwen ar yr ail Sadwrn o bob mis o hyn ymlaen wrth gwrs. (Bydd Marchnad nos Fercher ym mis Tachwedd fel arfer ond sylwer - mae’r dyddiad yng nghalendr Llais Ogwan yn anghywir. Yr 21ain yw’r dyddiad cywir).

Rydym yn gobeithio cael stondin fara newydd i gychwyn ym Marchnad Gorffennaf. Mae Becws Môn yn pobi amrywiaeth o fara ac edrychwn ymlaen am groesawu’r criw atom.

Mae Tocyn Anrheg Marchnad Ogwen ar gael yn y Farchnad bob mis erbyn hyn.

Ysgol Dyffryn Ogwen sydd yng ngofal y Stondin Elusen ym mis Awst. Rydym fel Marchnad leol yn hapus iawn i gefnogi’r ysgol. Mae’r ysgol gyda phrosiect newydd ar y gweill ym mis Medi ac mae angen casglu arian i brynu adnoddau. Ysgolion cynradd y Dyffryn - mae stondin ar gael yn rhad ac am ddim i chwi gasglu arian tuag at eich ysgol. Y nesaf sy’n rhydd yw Ionawr 2019.

Croeso cynnes i bawb Gorffennaf 14eg o 9.30 - 1.00 o’r gloch.

Mae gwybodaeth lawn at ein gwefan <http://www.marchnadogwen.co.uk> hefyd ar **facebook** a **Twitter**.

## Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Ar ddydd Mercher, 20 Mehefin, trefnodd Glyn a Dorothy Hughes, Llanfairpwll, ‘Ddiwrnod Golff’ yn Henllys. Cafwyd diwrnod arbennig o dda gydag elw o dros £2,300.00. Mae ein diolch yn fawr iawn i Glyn a Dorothy.

Ar ddydd Llun, 25 Mehefin, cynhaliwyd ‘Diwrnod Agored’ yn 29 Ffordd Ffrydlas, Bethesda, cartref Joe ac Eira Hughes. Cafwyd diwrnod braf a phoeth - a hynod lwyddiannus, gyda llu o gefnogwyr yn manteisio ar y cyfle i fwynhau paned a sgon! Dymuna Eira a Joe ddiolch yn

fawr iawn am y gefnogaeth ar y diwrnod. Diolch am y rhoddion o bob math, yn arian, gwobrau raffi a nwyddau ar gyfer y byrddau gwerthu. Diolch i Mrs. Arfona Edwards am y blanced hardd ar gyfer y sgwâr lwcus, a aeth i gartref ym Mryn Caseg. Diolch hefyd i Lester am ei phlanced hardd hithau ar gyfer y raffi. Diolch o galon i’r rhai fu’n helpu ar y diwrnod, sef Gwen, Helen, Gwenda, Ann, Glenys, Angharad, Wendy a Ron. Roedd elw’r diwrnod yn £1,800.00. Diolch yn fawr iawn i bawb.



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NE  
ebost: [sales@jrscaffolding.co.uk](mailto:sales@jrscaffolding.co.uk)

Ffôn/Ffacs:  
**01248 601754**  
**07770 568743 (symudol)**



## Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853  
([nev\\_hughes@btinternet.com](mailto:nev_hughes@btinternet.com))



# Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda  
☎ 600853  
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont  
☎ 353500

## Cydymdeimlo

*Mrs Nellie Theme*  
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu'r ddiweddar Mrs Nellie Theme, a fu farw'n dawel yng Nghartref Foelas, Llanrug, ym mis Mai. Mam ofalus Anita a'i gŵr, Alun, o Fferm Ty'n Hendre, Talybont, oedd Mrs Theme, ac yn nain a hen-nain arbennig iawn i'w holl wyrion a wyresau. Gedy fwch mawr ym mywydau'r teulu i gyd.

*Mr Albert Morris*  
Mae'n cydymdeimlad yr un mor ddiffuant â Wendy a Richard, 21 Cae Gwigin.  
Bu farw Albert Morris, tad Wendy, ar y 3ydd o Fehefin, llai na blwyddyn a hanner wedi iddo golli ei wraig, Carol, y bu mor ofalus ohoni yn ystod ei gwaeledd. Yr oedd Albert yn ymwelydd cyson â Thalybont. Byddai bob amser yn codi ei law a chyfarch yn siriol pwy bynnag a welai. Bydd colled mawr ar ei ôl ymysg ei deulu a'i ffrindiau oll.

*Mr Victor Parry*  
Daeth profedigaeth i ran Lynne a Michael a'r hogiau, 17 Dolhelyg, yn ddiweddar. Bu farw Victor Parry, taid Lynne, ar Fehefin 17eg. mewn Cartref Nyrsio yn Llanfairpwll. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd yn eu galar.

## Genedigaeth

Ymddiheurwn i John Ellis a Ruth, Fferm Pen Bryn, am beidio â sôn yn gynt am Iwan Glyn, a gafodd ei eni ym mis Ebrill. Mae hi'n syndod pa mor hir mae ambell eitem o newyddion yn cymeryd i'n cyrraedd! Llongyfarchiadau mawr, beth bynnag, a phob bendith arnoch i gyd fel teulu.

## Anffawd

Cafodd Yvonne Wynne, Cartref, Talybont, godwm cas yn y tŷ a thorri ei braich. Mae hi wedi bod yn ofnadwy o anlwcus, oherwydd newydd symud i Dalybont o Lanfairfechan mae Yvonne a'i gŵr, Michael, ac nid ydynt wedi cael cyfle eto i adnabod y pentref, nac i wneud ffrindiau newydd. Brysiwch wella, Yvonne. Mae gennych gymdogion da iawn o'ch cwmpas.  
Cafodd Lis, 2. Min Ogwen, ddamwain annifyr i'w choes a bu'n rhaid iddi dreulio ychydig o amser yn yr Ysbyty. Mae hithau'n ffodus o'i chymdogion hefyd.  
Ar nodyn hapusach, ganwyd merch, Martha Sali, i'w mab, Darren, a'i wraig Carmen yn Romania. Mae Lis yn

pwysleisio mai ar ôl Sali, Bryn Derwas, y cafodd y fechan ei henw canol.  
Aeth Idris Thomas, 16 Dolhelyg, i Ysbyty Gwynedd yn dilyn anffawd bach efo'i gar. Yn ffodus, ni chafodd niwed mawr.

## Cyd-Ddathlu

Disgynnodd penblwydd arbennig Rita Thomas, Bryn Celyn, ar y diwrnod pryd oedd aelodau Sefydliad y Merched, Llandegai, yn dathlu eu canmlwyddiant. Mae Rita, fel ei nain, ei mam, a'i modryb o'i blaen, yn aelod ffyddlon o'r Gangen.  
Ar y diwrnod hwnnw, roedd Rita a Brian yn dathlu penblwydd eu priodas, ac yr oedd eu merch ieuengaf, Angela, a'i gŵr David, yn dathlu penblwydd eu priodas hwythau!

## Sioe Dyffryn Ogwen

Ar ôl y gwyntoedd cryfion, a'r glaw mawr, a barodd i Sioe Dyffryn Ogwen gael ei chanslo'r llynedd, daeth yr haul eleni i dynnu'r tyrfaoedd i'r Cae Rygbi, a chafwyd Sioe ardderchog. Gresyn na fyddai mwy o drigolion Talybont yn nodi ddyddiad y Sioe ac, yn fwy byth, yn cymeryd rhan. Ein Sioe arbennig ni ydi hi, ac yn gyfle inni fwynhau cwmni ffrindiau o bob cwr o'r Dyffryn. Hir y parhao!

## Capel Bethlehem

*Oedfaon*  
Gorff. 22: Parchg. Geraint Roberts, Porthaethwy; Gorff. 29: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.  
Mis Awst: Cau – dim oedfaon. Medi 02: Parchg. Cledwyn Williams, Bangor; Medi 09: Gweinidog;  
Medi 16: Parchg. Gareth Edwards; Medi 23: Gweinidog.  
*Oedfaon am 2 o'r gloch.* Croeso cynnes i bawb.  
*Ysbyty*  
Mae Mrs. Iola Williams wedi ei chymryd i'r ysbyty unwaith eto. Mae hi yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan iddi!

*Te Mefus*  
Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ar 4 Gorffennaf. Gwnaed elw o dros £600.00.

*Oedfa Deuluol*  
Cynhaliwyd yr oedfa yng nghwmni plant yr Ysgol Sul, ar 8 Gorffennaf oedd yn brynhawn Sul poeth iawn. Daeth nifer dda i wrando ar y plant yn canu ac yn darllen. Diolch i bawb am eu cefnogaeth, i'r plant am wneud mor dda, ac i'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard hefyd. Cafodd pawb eu croesawu i'r festri am baned ar y diwedd. Diolchwn i bawb am eu gwaith yn ystod y pnawn.

# Bocsio-cic dros Gymru

Mae gan Billy Jones o Dalybont a Jack Jones o Hiraef, y ddau yn 14 oed ac yn ddisgyblion yn Ysgol Tryfan, haf cyffrous iawn o'u blaenau.  
Ym mis Medi, byddant yn cynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Byd-eang 'Kickbocsio' ym Mhortiwal. Bydd hyn yn goron ar fisoedd o ymrwymiad a hyfforddiant caled sydd wedi dod â llwyddiant i'r hogiau mewn nifer fawr o gystadleuthau hyd a lled y wlad.  
Mae Billy a Jack yn ddiolchgar iawn i'w Hyfforddwr, Darryl, o Gampfa'r 'Doghouse' ym Mangor, lle bydd y ddau yn dal i baratoi'n ddiwyd er mwyn gwneud eu gorau glas dros eu gwlad.  
Dymunwn yn dda iddynt. Braf iawn yw clywed am lwyddiant pobl ifainc ein bro yn eu gwahanol feysydd.  
Mae Stephanie, mam Billy, yn gofyn yn garedig i rywun a hoffai nodd i'r bechgyn (boed fusnes neu unigolion) gysylltu â hi ar 01248 370169 neu drwy E-bost [saj85@outlook.com](mailto:saj85@outlook.com)



Billy ar y chwith.

## Modurdy Central

M.O.T. ar gael  
Hefyd  
Trwsio a Gwasanaeth  
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda  
☎ 601031





# Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog  
Trefn Oedfaon:-  
Gorffennaf 22: Parchg. Carys Ann.

Oedfa am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.  
Croeso cynnes i bawb.

## Calendr Llais Ogwan 2019

Lluniau ar gyfer Calendr 2019 i mewn cyn **DIWEDD GORFFENNAF 2018**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.

**Lluniau mewn fformat tirlun (yn ddigidol os yn bosibl)**

Digidol trwy ebost at: [calendr2019@outlook.com](mailto:calendr2019@outlook.com)  
Neu  
Print neu ar ddisg at:

Calendr Llais Ogwan  
Swyddfa Ogwen  
26 Stryd Fawr  
Bethesda  
LL57 3AE



Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?

## PEN Y CEUNANT ISAF

### Y BWTHYN TÉ

[www.snowdoncafe.com](http://www.snowdoncafe.com)

Llwybr Yr Wyddfa  
Llanberis  
LL55 4UW  
01286 872 606



### Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym  
Marchnad Ogwen  
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi  
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau  
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

# Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, Neville Hughes 600853  
([nev\\_hughes@btinternet.com](mailto:nev_hughes@btinternet.com))

# WU SHU KWAN – llwyddiant yn dod i ran James

Llongyfarchiadau i James Fitzpatrick, 16 mlwydd oed o Fethesda, ar ennill gwregys du (black belt) ac yntau mor ifanc. Fe hyfforddwyd James i fod yn yn “Wu Shu Kwan Kuch Fu” ers pan oedd yn 9 mlwydd oed, ac mae’n falch ofnadwy ei fod wedi llwyddo i ymuno â gweddill y teulu, sef ei fam, ei dad a’i chwaer. Maen nhw i gyd yn berchen ar wregys du

Yr her nesaf i James fydd dysgu sut i fod yn athro ar ddosbarth er mwyn trosglwyddo’r sgiliau sydd ganddo hyd yma. Gan ei fod wedi ennill sylfaen gadarn, mae’n gymwys i ddysgu technegau zil radd sydd yn cynnwys arfogaeth.

Mae Bocsio Cic Tsheineaid Wu Shu Kwan yn ddisgyblaeth gref, yn dda at wahanol agweddau o fywyd, ac yn ffordd o ennill ffitrwydd wrth ddysgu hunan amddiffyn. Beth am ymuno â’r dosbarth yn Nhregarth (sesiwn gyntaf yn rhad ac am ddim, dim cytundebau misol). Bob nos Fercher o 6.30 – 8.30yh yng Nghanolfan Gymunedol Tregarth.



James Fitzpatrick yn gwisgo’i wregys du



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**  
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth**, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth**, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

[williams@parliament.uk](mailto:williams@parliament.uk)



# Chwaraeon

## CRICED gyda Dilwyn Pritchard

### Y TÎM CYNTAF – Sgorio’n dda mewn tywydd braf

Mewn tywydd criced go iawn gorffennodd y tîm cyntaf hanner cyntaf y tymor ar frig y gynghrair. Am y tro cyntaf ers sawl tymor mae’r tîm wedi cael gallu cael carfan gweddol sefydlog ar y cae o Sadwrn i Sadwrn. Mae hynny wedi bod o help garw i’r ail dîm gan nad ydyn nhw wedi gorfod colli nifer o’u chwaraewyr yn gyson i lenwi’r tîm cyntaf. Eleni, am ryw reswm, mae fformat y gemau wedi newid a dydw i ddim yn sicr pam, ond mae’n bosib y bydd hyn yn cael effaith ar Fethesda yn yr ail hanner - cawn weld.

Hanner ffordd drwy’r tymor mae Bethesda wedi chwarae chwe gêm adref a fydd yn golygu mwy o deithio yn yr ail hanner, ond y newydd da yw eu bod wedi ennill saith gêm a cholli dwy. Mae Mathew Harrington wedi ymuno â ni eleni ar ôl dychwelyd o Awstralia. Mae o wedi sgorio’n gyson gyda 144 h.f.a. yn y gêm gyntaf yn erbyn Llai gyda Siôn Buchanan yn cymryd tair wiced a Lee

Williams ddwy i sicrhau buddugoliaeth swmpus. Tro Carwyn Williams oedd cyrraedd y cant yn yr ail gêm yn erbyn Llanrwst gydag yntau’n cyrraedd 111 h.f.a. Cafodd gefnogaeth gan Ioan Roberts 80 efo Lee, Kevin a Gareth Edwards yn cymryd y wicedi.

Roedd y gêm ym Mhontblyddyn yn agos gyda Carwyn a Siôn yn cipio’r wicedi i sicrhau’r fuddugoliaeth. Collwyd y gêm adref i’r Wyddgrug er i Nicolas Parry geisio’i orau yn sgorio 58. Collwyd adref hefyd i Abergele er i Carwyn sgorio 46 a Gareth Edwards 34. Doedd hynny ddim yn ddigon ar y diwrnod.

Ioan Roberts 53 a John Williams 30 oedd yn gyfrifol am y fuddugoliaeth yn erbyn Dolgellau gyda Gareth Jones, Lee a Carwyn yn cael tair wiced yr un. Mwynhawyd taith i’r Bers, lle sgoriodd Jez 54 h.f.a., Matt 54 a Nic 48. Cipiodd Kevin Evans a Gareth Jones a Lee 3 wiced yr un. Cafwyd buddugoliaeth agos yn erbyn Mochdre gyda Matt yn sgorio 59. Yng Nghonwy mwynhaodd Gareth Jones brynhawn da

gyda’r bêl yn cipio 6 wiced am 26 rhediad wedi i Carwyn sgorio 48 a Jez 32 i osod targed o 158 i Gonwy.

### YR AIL DÎM

Curo 4 a cholli tair yw hanes yr ail dîm hyd yma. Collwyd adref i Lanelwy er iddynt ar ddiwedd mis Mehefin dalu’r pwyth yn ôl drwy ennill ar gae’r ddinas. Geraint Jones, 53, Twm Jones 48, a Gavin Owen 36 yn rhoi sylfaen i fuddugoliaeth mewn gêm o sgorio uchel. Collwyd dwy gêm agos yn erbyn Pwllheli. Dylid fod wedi ennill y gêm gartref.

Alwyn Roberts oedd yn bennaf gyfrifol am fuddugoliaeth yn erbyn Abergele pan sgoriodd 100 h.f.a. Sgoriodd Twm Jones ei hanner cant cyntaf yng Nghonwy wrth i Fethesda sicrhau buddugoliaeth dda. Mae’r hen ben, Dewi Roberts, wedi sgorio yn drwm hefyd gydag 85 yn erbyn Pwllheli, 96 yn y fuddugoliaeth yn erbyn Llandudno a 73 yn erbyn Abergele. Daliwch ymlaen hogiau yn ail hanner y tymor.

## Canlyniadau Bowlio gan H. Dilwyn Owen

### Cynghrair Dydd Sadwrn hyd yma;

Bethesda 5 Llandudno 7  
Ioan Critchlow 21-7,  
Brynmor Jones 21 - 7

Fron Park 9 Bethesda 3  
Ioan Critchlow 21 - 13,  
Dylan Roberts 21 - 16

Bethesda 9 Conwy 3  
Derek Roberts 21 - 4,  
Richard Jones 21 - 12, John  
Roberts 21 - 20

Dyserth 9 Bethesda 3  
Richard Jones 21 - 11,  
Brynmor Jones 21 - 19,  
John Roberts 21 - 20

Caernarfon 5 Bethesda 4  
Derek Roberts, Richard  
Jones 21 - 13, Sion Guto  
21 - 14

Bethesda 4 Rhos Park 8  
Wendy Thomas 21 - 14,  
Derek Roberts 21 - 9

### Cynghrair Nos Fercher

Bethesda 7 Cricieth 3  
John Roberts 21 - 10, Dylan  
Roberts 21 - 12, Derek  
Roberts 21 - 14

Benllech 5 Bethesda 5  
Dylan Roberts 21 - 7, Wendy  
Thomas 21 - 14

Biwmares 6 Bethesda 4  
Derek Roberts 21 - 4,  
Brynmor Jones 21 - 15,  
Gloria Williams 21 - 17,  
Richard Jones 21 - 10

Bu’r tîm yn chwarae  
rownd cyn-derfynol  
Cwpan Gwynedd yn  
erbyn Llanfair PG ar nos  
iau Gorffennaf 5.

Cofiwch am ein  
cystadleuaeth fawr  
i barau ar Nos Sul  
Awst 26. Bydd rhai  
o chwaraewyr gorau  
Cymru yno.

## Maldwyn Pritchard, capten tîm yr hynafgwyr yn rhoi crynodeb o berfformiad ei dîm hyd yma.

(gan roi peltan go egar i ambell aelod!)

Tymor gweddol siomedig gafodd tîm Bethesda hyd yma yn ail gynghrair Henoed Gwynedd, oherwydd mae’r tim yn 5ed yn y tabl wedi ennill 3 a cholli 6 o’u gemau.

O’r chwaraewyr unigol, enillodd Derek (TV) Griffiths ei 5 gêm cyntaf, ond ar ôl iddo ddychwelyd o’i wyliau ar daith llong yn y Môr Canoldir mae o wedi colli 3 gêm yn olynol. Mae ei feddwl o’n dal ar y daith mae’n rhaid!

O’r lleill, mae Heddwyn Morris wedi ennill 4 allan o 7 gêm, Emyr Roberts 4 o 6, Fred Buckley 3 o 5, Wendy Thomas 2 o 3, George Owen 2 o 4, Brynmor Jones 1 o 2, John Baston 1 o 2, y capten Maldwyn Pritchard 1 o 2, Gareth (Post) Hughes 1 o 6, Gloria Williams 0 o 1 a Dilwyn Owen 0 o 2.

Mae seren y tîm y tymor diwethaf, sef Derfel Roberts wedi bod yn siomedig iawn gyda dim ond 3 byddugoliaeth allan o 6 gêm a bydd raid i’r capten ystyried yn ddifrifol os ydi o’n haeddu ei le yn y tîm.

Yn y gemau i barau mae’r capten wedi ennill 3 allan o 7, John 2 o 6, Emyr 1 o 1 a Wendy, George a Gloria Williams 0 allan o 1.

Bydd y capten yn galw am “tîm huddle” cyn y gêm nesa’ gan obeithio bydd pawb yn codi eu sanau i fyny i’r lefel mae trigolion Bethesda yn ei ddisgwyl.

